COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

Comisiwn Ffiniau
Llywodraeth Leol
i Gymru

Local Government
Boundary Commission
for Wales

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

ADRODDIAD A CHYNIGION

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

AROLWG O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

ADRODDIAD A CHYNIGION

1. CYFLWYNIAD

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

4. CYNIGION DRAFFT

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6. ASESIAD

7. CYNIGION

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

9. CYDNABYDDIAETHAU

10. Y CAMAU NESAF

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE
Rhif ffôn: (029) 2039 5031
Rhif ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: cflll.cymru@cymru.gsi.gov.uk
www.cflll-cymru.gov.uk

1. CYFLWYNIAD

1.1 Rydym ni Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) wedi cwblhau'r arolwg o ffiniau cymunedol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ei Gyfarwyddyd i ni dyddiedig 31 Mawrth 2008 (Atodiad 1).

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Cynigiwn:

- bod y ffin rhwng Cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll yn ardal yr eiddo a elwir Croft Mawr yn cael ei hadlinio i ddilyn y ffin a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 3;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr yn ardal y B4265 yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 4;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn ardal Whitcliffe Drive yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn ardal Merlin Close a Brockhill Way yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 5;
- bod y ffin rhwng Cymunedau Pendeulwyn a Llanddunwyd yn cael ei hadlinio i ddilyn y llinell a ddangosir mewn gwyrdd ar y map yn Atodiad 6;
- bod y trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Llanilltud Fawr yn cael eu diwygio; a
- bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn ystyried adolygu'r wardiau cymunedol ar gyfer Cyngor Tref y Barri, Cyngor Cymuned Sain Tathan a Chyngor Cymuned Gwenfô yn unol ag adran 57(4) y Ddeddf.

3. CWMPAS AC AMCAN YR AROLWG

3.1 Diben yr arolwg yw ystyried a ddylai'r Comisiwn, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gynnig newidiadau i'r ffiniau cymunedol presennol. Cynhelir yr arolwg dan ddarpariaethau Adran 55 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y Ddeddf).

3.2 Mae Adran 60 y Ddeddf yn nodi canllawiau gweithdrefnol y dylid eu dilyn wrth gynnal arolwg. Yn unol â'r arweiniad hwnnw, ar 1 Mai 2008 gwnaethom ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Cynghorau Cymuned y Barri, Tregolwyn, y Bontfaen a Llanfleiddan, Dinas Powys, Ewenni, Llancarfan, Llandochau, Llandŵ, Llanfair, Llan-gan, Llan-maes, Llanilltud Fawr, Llanfihangel-y-pwll, Penarth, Pendeulwyn, Pen-llin, Llanbedr-y-fro, Sain Tathan, Saint-y-brid, Sain Dunwyd, Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái, Sain Nicolas a Thresimwn, Sili, Gwenfô, y Wig, a Llanddunwyd, yr Aelod Seneddol ar gyfer yr etholaeth leol, Aelodau'r Cynulliad ar gyfer yr ardal, a phartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am ein bwriad i gynnal yr arolwg a gofyn am eu safbwyntiau rhagarweiniol. Hefyd, gwnaethom gyhoeddi ein bwriad i gynnal yr arolwg mewn papurau newydd lleol sy'n cael eu dosbarthu yn yr ardal a gofyn i'r Cynghorau arddangos

hysbysiadau cyhoeddus. Rhoddwyd hysbysiad am gychwyn yr arolwg a'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cynrychiolaethau (4 Gorffennaf 2008) ar wefan y Comisiwn.

4. CYNIGION DRAFFT

4.1 Mewn ymateb i'n gwahoddiad cychwynnol, cawsom gynrychiolaethau gan Gyngor Tref y Barri, Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan, Cyngor Cymuned Ewenni, Cyngor Cymuned Llandochau, Cyngor Cymuned Llan-gan, Cyngor Cymuned Llan-maes, Cyngor Tref Llanilltud Fawr, Cyngor Tref Penarth, Cyngor Cymuned Pendeulwyn, Cyngor Cymuned Pen-llin, Cyngor Cymuned Sain Tathan, Cyngor Cymuned Gwenfô a Chyngor Cymuned y Wig; 3 Chynghorydd; a 316 o bartïon eraill â diddordeb a phreswylwyr. Yn ein cynigion drafft a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2009, gwnaethom ystyried y materion a godwyd yn y cynrychiolaethau hyn.

4.2 Awgrymwyd newidiadau i'r ffiniau sirol yn yr ardaloedd canlynol: Ewenni, Llandochau, Llan-maes, Llanilltud Fawr, Llanfihangel-y-pwll, Penarth, Pendeulwyn, Saint-y-brid, Sili, Llanddunwyd a'r Wig.

Llandochau / Llanfihangel-y-pwll

4.3 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom nodi'r awgrym gan Gyngor Cymuned Llandochau yn cynnig newid i'r ffin rhwng Cymuned Llandochau a Chymuned Llanfihangel-y-pwll gan y byddai'n fwy priodol cynnwys yr eiddo a adwaenir fel Croft Mawr mewn ardal Gymunedol arall. Ar ôl ymweld â'r safle, cadarnhawyd mai'r unig ffordd i gael mynediad at yr eiddo hwn oedd trwy Gymuned Llanfihangel-y-pwll ac ymddengys fod yr eiddo yn anghysbell o aneddiadau yn Llandochau. Roeddem o'r farn felly bod y newid hwn i'r ffin yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cynnig adlinio'r ffin i symud yr eiddo o Landochau i Lanfihangel-y-pwll.

Llan-maes / Llanilltud Fawr

4.4 Gwnaethom nodi'r awgrym gan Gyngor Cymuned Llan-maes i adlinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Llanilltud Fawr i ddilyn ffordd y B4265 yn Nhrebefered. Roeddem o'r farn bod rhinwedd i'r cynnig hwn gan fod y ffordd brysur hon yn cynnig ffin effeithiol rhwng y ddwy ardal gymuned. Fodd bynnag, ar ôl ymweld â'r safle, gwnaethom sylwi fod ffin awgrymedig y Cyngor yn hepgor dau eiddo i dde-orllewin Llan-maes. Felly, gwnaethom gynnig ymestyn y ffin ymhellach i gyfeiriad y gorllewin ar hyd ffordd y B4265 er mwyn cynnwys y ddau eiddo hyn yng Nghymuned Llan-maes. Roeddem o'r farn bod y newid hwn i'r ffin yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cynnig newid y ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr.

Penarth / Sili

4.5 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried yr awgrym a wnaed gan Gyngor Tref Penarth y dylid adlinio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Sili er mwyn cynnwys eiddo yn Whitcliffe Drive, sydd ar hyn o bryd yn Ward Larnog, Sili y tu mewn i Ward Plymouth, Penarth. Gwnaethom sylwi bod mynediad at yr eiddo

hyn yn Whitcliffe Drive o Benarth yn unig a chynnig cynnwys ardal Whitcliffe Drive o fewn ffin Cymuned Penarth.

4.6 Hefyd, gwnaethom nodi anghysondeb arall yn y ffin rhwng Cymunedau Sili a Phenarth yn ardal Merlin Close a Brockhill Way. Gwnaethom gynnig fod yr anghysondeb hwn yn cael ei unioni gan symud y ffin i'r ffens terfyn wrth gefn yr eiddo.

Pendeulwyn / Llanddunwyd

4.7 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom nodi'r cynnig a wnaed gan Gyngor Cymuned Pendeulwyn i symud dau eiddo o Landdunwyd i Bendeulwyn. Byddai'r ffin awgrymedig yn dilyn ffin y goedwig naturiol o amgylch ardal Warren Farm. Cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal a chadarnhawyd bod y mynediad at Warren Farm drwy Bendeulwyn. Ymddengys fod y ffin awgrymedig wedi'i diffinio'n glir gan ei bod yn dilyn ffiniau caeau, er yr ymddangosai nad oedd hyn yn rhoi mantais iddi yn hyn o beth dros y ffin bresennol. O'r dystiolaeth y gwnaethom ei hystyried yn ystod y cam hwn o'r arolwg, roeddem o'r farn nad oedd gan y ddau eiddo fwy o gysylltiad â Phendeulwyn ag oedd ganddynt â Llanddunwyd, ond byddem yn croesawu cynrychiolaethau pellach ar y pwnc gan ddangos sut y byddai gwneud newid tebyg er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Saint-y-brid

4.8 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom nodi'r cynrychiolaethau niferus a gawsom yn cefnogi'r cynnig y dylai Ward Aberogwr yng Nghymuned Saint-y-brid ffurfio ei Chymuned ei hun. Gwnaethom nodi hefyd awgrym i ehangu maint y gymuned newydd hon i gynnwys ardal Southerndown o Ward Saint-y-brid.

4.9 Gwnaethom ystyried nifer yr etholwyr yn y ddwy gymuned newydd a awgrymwyd, a nodi bod cymunedau gwledig eraill yn bodoli ym Mro Morgannwg a llai o etholwyr ynddynt. Hefyd, gwnaethom ystyried lefel y gefnogaeth gan y cyhoedd am Gymuned Aberogwr a ddangoswyd gan y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwn. O ystyried y cynrychiolaethau cymhellol a niferus o blaid y cynnig hwn i sefydlu Cymuned newydd, ac ym mhob amgylchiad, roedd y Comisiwn yn fodlon bod rhinwedd i'r cynnig hwn, ond byddai'n croesawu cynrychiolaethau pellach.

4.10 Gwnaethom nodi'r awgrym i ehangu maint Cymuned arfaethedig Aberogwr i gynnwys ardal Southerndown. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod trefniadau wardio presennol Saint-y-brid yn rhai hir sefydlog ac nid oeddem yn ymwybodol o gynigion a oedd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â'r ffin rhwng y ddwy ward ers iddynt gael eu sefydlu ym 1982. Felly, nid oeddem wedi ein darbwyllo bryd hynny y byddai ehangu maint Cymuned arfaethedig Aberogwr i gynnwys ardal Southerndown yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gwnaethom groesawu sylwadau a chynrychiolaethau ynghylch y mater hwn, yn enwedig gan breswylwyr ardal Southerndown a chan breswylwyr Cymuned Saint-y-brid gyfan a phartïon eraill a diddordeb ynglŷn â'r cynnig cyffredinol i ffurfio dwy gymuned newydd.

Y Wig

4.11 Gwnaethom ystyried y cynnig gan Gyngor Cymuned y Wig am newid eu ffiniau â Chymuned Saint-y-brid a Chymuned Llanddunwyd. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y Wig a Saint-y-brid oedd cynnwys Sealand Farm a dau lwybr troed yn mynd o Heol Las i'r clogwyni yng Nghymuned y Wig. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y Wig a Llanddunwyd oedd cynnwys East Monkton Farm a West Monkton Farm yng Nghymuned y Wig.

4.12 Gwnaethom nodi bod y ddau lwybr eisoes naill ai yng Nghymuned y Wig neu yn rhannol yn ffurfio ffin Cymuned y Wig ac felly nid oedd angen adlinio'r ffin. O ran Sealand Farm, ystyriwyd er bod mynediad i'r Fferm drwy'r Wig, ni wyddys faint o'r tir cyfagos oedd yn berchen i'r Fferm ac felly ni ellid nodi ffin amgen briodol. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir, nid oeddem o'r farn bod y newid awgrymedig i'r ffin rhwng Cymunedau'r Wig a Saint-y-brid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mewn perthynas â Ffermydd East Monkton a West Monkton, ystyriwyd hefyd gan na nodwyd faint o'r tir cyfagos a oedd yn berchen i'r Ffermydd, nid oedd modd nodi ffin amgen briodol. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir, nid oeddem o'r farn bod y newid awgrymedig i'r ffin rhwng Cymunedau'r Wig a Llanddunwyd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Ni wnaethom unrhyw gynigion, bryd hynny, o ran newidiadau i ffin Cymuned y Wig. Gwnaethom ddatgan y byddwn yn ystyried mwy ar y mater yn sgil unrhyw gynrychiolaethau neu wybodaeth bellach.

Y Barri

4.13 Gwnaethom nodi'r newidiadau i ffiniau wardiau a awgrymwyd gan y Cynghorydd Richard Bertin o Gyngor Tref y Barri yng Nghymuned y Barri. Gwnaethom nodi bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal dan adran 55 y Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned (a fyddai'n cynnwys addasu ffiniau wardiau) sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Gan na wnaethom dderbyn unrhyw awgrymiadau am newid ffin Cymuned y Barri, ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau'r wardiau yng Nghymuned y Barri yn ystod cyfnod y Cynigion Drafft. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried adolygu wardiau cymunedol Cyngor Tref y Barri.

Llanilltud Fawr

4.14 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried cais Cyngor Tref Llanilltud Fawr i gynyddu nifer y Cynghorwyr yn Ward Trebefered. Dim ond o ganlyniad i newid ffin gymunedol Ward Trebefered y gellid ystyried newid tebyg fel rhan o'r arolwg hwn. Mae'n wir bod y newid a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Llan-maes (4.4) yn cynnwys newid rhan o ffin Ward Trebefered yng Nghymuned Llanilltud Fawr, ac mae hawl gennym gynnig newidiadau i'r trefniadau etholiadol yn dilyn y newid hwnnw (a gwnaethom ystyried gwneud hynny ym mharagraffau 8.6 ac 8.7 isod – ni chynigir unrhyw newid), ond nid yw'r newid i'r trefniadau etholiadol a gynigir gan Lanilltud Fawr, nad yw'n ôl-ddilynol ar unrhyw newid tebyg i'r ffin, yn ein pwerau i'w hystyried yng nghyd-destun yr Arolwg hwn.

Sain Tathan

4.15 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom nodi'r newidiadau i'r trefniadau etholiadol a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Sain Tathan. Gwnaethom nodi bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal dan Adran 55 y Ddeddf, sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Gan na wnaethom dderbyn unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffin Cymuned Sain Tathan, ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol Cymuned Sain Tathan yn ystod cyfnod y Cynigion Drafft.

Gwenfô

4.16 Gwnaethom nodi'r newidiadau i ffiniau'r wardiau a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Gwenfô. Gwnaethom nodi bod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal dan Adran 55 y Ddeddf sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned (a fyddai'n cynnwys addasu ffiniau wardiau) sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Gan na wnaethom dderbyn unrhyw awgrymiadau am newid ffin Cymuned Gwenfô, ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau'r wardiau yng Nghymuned Gwenfô yn ystod cyfnod y Cynigion Drafft.

Ewenni

4.17 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom nodi'r ohebiaeth gan Gyngor Cymuned Ewenni a phreswylydd o Ewenni yn cynnig newidiadau i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gwnaethom amlygu'r ffaith fod hwn yn arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac rydym o'r farn y byddai ystyried newidiadau i ffin ardal prif gyngor (Sir a Bwrdeistref Sirol) y tu allan i gylch gwaith yr arolwg cyfredol hwn. Fel y gwnawn ym mhob achos, byddwn yn ystyried ceisiadau i gynnal arolwg o'r ffiniau rhwng ardaloedd prif gynghorau, ond fe wnaethom nodi ein bod wedi cynnal arolwg o'r ardal benodol hon mor ddiweddar â 1999 a chyn belled ag yr ydym yn ymwybodol, ni fu unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn yr ardal yn y cyfamser.

4.18 Ni wnaethom unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i weddill yr ardaloedd cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

5. CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

5.1 Gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau gan Gyngor Tref y Barri, Cyngor Cymuned Ewenni, Cyngor Cymuned Llandochau, Cyngor Tref Llanilltud Fawr a Chyngor Cymuned Sain Dunwyd; un AS; un AC; 4 Cynghorydd; a 297 o gyrff eraill â diddordeb a phreswylwyr. Gwnaethom ystyried yr holl gynrychiolaethau hyn yn ofalus cyn llunio ein cynigion. Ceir crynodeb o'r cynrychiolaethau hyn yn Atodiad 2.

6. ASESIAD

Llandochau a Llanfihangel-y-pwll

6.1 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried cynnig i newid y ffin rhwng Cymuned Llandochau a Chymuned Llanfihangel-y-pwll yn yr ardal o gwmpas yr eiddo a adwaenir fel Croft Mawr. Roedd y cynnig gan Gyngor Cymuned Llandochau yn datgan y byddai'n fwy priodol ei gynnwys mewn ardal Gymunedol arall. Cynhaliwyd ymweliad â'r safle a chadarnhawyd bod yr unig fynediad at yr eiddo hwn drwy Gymuned Llanfihangel-y-pwll ac yr ymddengys fod yr eiddo yn anghysbell o aneddiadau yn Llandochau. Wedi i'r adroddiad ar y Cynigion Drafft gael ei gyhoeddi, cytunodd Cyngor Cymuned Llandochau â'r cynigion a nodwyd. Felly, rydym o'r farn bod y newid hwn i'r ffin yn ddymunol er llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac yn cynnig adlinio'r ffin er mwyn symud yr eiddo o Landochau i Lanfihangel-y-pwll (map yn Atodiad 3).

Llan-maes a Llanilltud Fawr

6.2 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ystyried newid y ffin rhwng Cymuned Llan-maes a Chymuned Llanilltud Fawr i ddilyn ffordd y B4265 yn Nhrebefered. Roeddem o'r farn bod rhinwedd i'r cynnig hwn gan fod y ffordd brysur hon yn darparu ffin effeithiol rhwng y ddwy ardal gymunedol. Ar ôl ymweld â'r safle, gwnaethom sylwi fod ffin awgrymedig y Cyngor yn hepgor dau eiddo i dde-orllewin Llan-maes. Felly, gwnaethom gynnig ymestyn y ffin ymhellach i gyfeiriad y gorllewin ar hyd y B4265 er mwyn cynnwys y ddau eiddo hyn yng Nghymuned Llan-maes. Ysgrifennodd Cyngor Tref Llanilltud Fawr atom gan ddweud nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig i'r ffin. Gwnaethom nodi'r cynrychiolaethau pwysleisiol yn erbyn y cynnig a dderbyniwyd gan un o breswylwyr Llanilltud Fawr, ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod y fantais o bennu'r B4265 fel y ffin er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym yn cynnig y newid i'r ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr a ddangosir ar y map yn Atodiad 4.

6.3 Ystyriwyd y cais cychwynnol gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr i gynyddu nifer y cynrychiolwyr yn ward Trebefered yng Nghymuned Llanilltud Fawr o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y preswylwyr. Gan fod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal dan Adran 55 y Ddeddf, mae'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddibynnol ar newid i'r ffin gymunedol yn unig. Felly, gan ein bod wedi cynnig newid y ffin rhwng ward Trebefered yn Llanilltud Fawr a Chymuned Llan-maes (6.2), gallwn gynnig newid y trefniadau etholiadol ar gyfer ward Trebefered Cyngor Tref Llanilltud Fawr. Rydym yn cynnig newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer wardiau Trebefered, De Ddwyrain a Gorllewin Cyngor Tref Llanilltud Fawr er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb ledled y gymuned. Ceir manylion y newidiadau hyn yn 8.9.

Penarth a Sili

6.4 Gwnaethom ystyried yr awgrym a wnaed gan Gyngor Tref Penarth y dylid diwygio'r ffin rhwng eu Cymuned a Chymuned Sili er mwyn cynnwys eiddo yn Whitcliffe Drive, sydd ar hyn o bryd yn Ward Larnog, Sili y tu mewn i Ward Plymouth, Penarth. Ar ôl ymweld â'r safle, gwnaethom arsylwi bod mynediad at yr eiddo hyn

yn Whitcliffe Drive o Benarth yn unig ac rydym yn cynnig cynnwys ardal Whitcliffe Drive o fewn ffin Cymuned Penarth (map yn Atodiad 5).

6.5 Rydym yn cynnig bod yr anghysondeb arall yn y ffin rhwng Cymunedau Sili a Phenarth yn ardal Merlin Close a Brockhill Way yn cael ei unioni gan symud y ffin i'r ffens terfyn wrth gefn yr eiddo (map yn Atodiad 5).

Pendeulwyn a Llanddunwyd

6.6 Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r cynnig a wnaed gan Gyngor Cymuned Pendeulwyn i drosglwyddo dau eiddo o Landdunwyd i Bendeulwyn. Byddai'r ffin awgrymedig yn dilyn ffin y goedwig naturiol o amgylch ardal Warren Farm. Cynhaliwyd ymweliad safle â'r ardal a chadarnhawyd bod y mynediad at Warren Farm drwy Bendeulwyn a bod y ffin awgrymedig wedi'i diffinio'n glir gan ei bod dilyn ffiniau caeau. Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ddatgan y byddem yn croesawu cynrychiolaethau pellach gan yr ymddengys nad oedd gan y ddau eiddo fwy o gysylltiad â Phendeulwyn ag oedd ganddynt â Llanddunwyd. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau pellach ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar y Cynigion Drafft. Felly, o'r dystiolaeth a ystyriwyd gennym, rydym o'r farn y byddai gwneud newid tebyg er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Rydym yn cynnig newid y ffin rhwng Pendeulwyn a Llanddunwyd fel y dangosir ar y map yn Atodiad 6.

Saint-y-brid

6.7 Ystyriwyd y cynrychiolaethau niferus a dderbyniwyd mewn perthynas â'r awgrym cychwynnol y dylai Ward Aberogwr yng Nghymuned Saint-y-brid ffurfio ei Chymuned ei hun. Gwnaethom nodi hefyd awgrym i ehangu maint y gymuned newydd hon i gynnwys ardal Southerndown o Ward Saint-y-brid.

6.8 Yn dilyn ein cais yn yr adroddiad ar y Cynigion Drafft yn croesawu cynrychiolaethau pellach, gwnaethom dderbyn cynrychiolaethau niferus o blaid ac yn erbyn rhannu'r Gymuned oddi wrth ardaloedd y Gymuned bresennol. Gwnaethom ymestyn y broses ymgynghori am bythefnos ychwanegol hefyd er mwyn sicrhau bod etholwyr o bob ardal yng Nghymuned Saint-y-brid yn cael cyfle i fynegi eu barn.

6.9 Daeth yr achos cryfaf o blaid y newid gan breswylwyr Aberogwr yn hytrach na phreswylwyr Saint-y-brid a Southerndown. Y prif reswm dros yr achos i rannu'r gymuned oedd bod y 3 phentref yn cael eu hystyried yn endidau ar wahân, er yr awgrymwyd rhyw fath o berthynas rhwng Aberogwr a Southerndown fel ardaloedd arfordirol. Hefyd, teimlwyd bod Aberogwr wedi'i esgeuluso o ran cyfleusterau, gyda mwyaf y cyfleusterau wedi'u lleoli yn Saint-y-brid. Crybwyllwyd twf sylweddol Aberogwr hefyd yn y cynrychiolaethau, gyda'r posibilrwydd o gynnydd sylweddol yn nifer y tai yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Cafwyd y rhan helaeth o'r cynrychiolaethau o blaid rhannu'r Gymuned ar ffurf ffurflen gan gyfran weddol fawr o etholwyr Aberogwr. Coladwyd adroddiad cynhwysfawr hefyd yn adlewyrchu arolwg o ddrws i ddrws a gynhaliwyd ym mhentrefi Aberogwr a Southerndown. Coladwyd y canlyniadau o Saint-y-brid trwy ddeiseb a roddwyd yn y Swyddfa Bost leol.

6.10 Roedd y cynrychiolaethau hynny a dderbyniwyd a oedd yn dymuno cadw at y sefyllfa bresennol yn mynegi ymresymiadau a thystiolaeth i wrthddweud y pwyntiau

a wnaed yn 6.9 uchod neu roi cyd-destun iddynt. Daeth y cynrychiolaethau hyn, ac eithrio unrhyw fath o ddeiseb neu ffurflen, gan breswylwyr ym mhob un o'r 3 anheddiad ac roeddent yn cynnwys pwyntiau megis:

- Sail hanesyddol y trefniadau presennol
- Nid oedd y Cyngor Cymuned yn gyfrifol am lawer o'r problemau a fynegwyd gan y rheiny a oedd o blaid y newid
- Roedd y cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu defnyddio gan breswylwyr pentrefi eraill
- Yr ardal gymharol fach a gwmpesir gan y Cyngor Cymuned presennol
- Costau ychwanegol posibl pe byddai'r rhaniad yn cael ei gytuno
- Yr awgrym bod angen llai o Gynghorau Cymuned mwy, yn hytrach na mwy ohonynt
- Cwestiynu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gael barn preswylwyr mewn un ardal o'r Cyngor Cymuned
- Roedd modd i'r trefniadau presennol weithio'n dda pe byddai'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu yn fodlon cydweithio â'i gilydd.

6.11 Ar ôl cynnal ymweliad safle â'r ardal, sylweddolwyd nad oedd yr ardal gyfan yn un fawr. Er nad yw Saint-y-brid ar lan y môr, nid yw'n endid arbennig ac anghysbell sydd ymhell o'r pentrefi eraill. Mae llawer o'r materion a grybwyllwyd yn y cynrychiolaethau o blaid y rhaniad y tu hwnt i allu'r Cyngor Cymuned. Mae cau siopau, tafarndai a Swyddfeydd Post yn dibynnu cymaint ar batrymau byw newidiol ac economeg ag y mae ar wleidyddiaeth leol. Lle bo problemau'n codi sy'n mynnu ymyrraeth gan asiantaethau eraill, gall Cyngor Cymuned cryf wneud cynrychiolaethau effeithiol, a gall y Cyngor Cymuned presennol fod y cyngor hwnnw. Bydd lleoliad cyfleusterau cyhoeddus mewn ardal bob amser yn fater cynhennus, ac nid yw'n anghyffredin i rannau o ardal ddadlau eu bod yn colli allan i ardaloedd eraill ac mae'r achos hwn yn dangos hynny. Nid yw disgwyl i gyfleusterau gael eu dyblygu ym mhob anheddiad yn realistig nac yn ymarferol, ond gallant fod yn gyfleus o hyd, hyd yn oed os ydynt wedi'u lleoli mewn pentref cyfagos.

6.12 Awgrymodd Adroddiad Beecham fod cydweithrediad rhwng cyrff cyhoeddus yn ddull o gynhyrchu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol. Un o'r rhesymau am hyn yw bod gan Gymru nifer fawr o gyrff cyhoeddus eisoes ar gyfer poblogaeth o'i maint. Credwn y byddai ychwanegu at y nifer honno yn gywir ac yn rhesymol pe byddai achos digon cryf dros wneud hynny. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y gwnaed yr achos hwnnw. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth a goblygiadau'r cynnig hwn, ac wedi ystyried y cynrychiolaethau grymus o blaid ac yn erbyn y cynnig yn ofalus. Rydym o'r farn na fyddai newid tebyg er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newid yng Nghymuned
Saint-y-brid.

Y Wig

6.13 Gwnaethom ystyried yr awgrym gan Gyngor Cymuned y Wig am newid eu ffiniau â Chymuned Saint-y-brid a Chymuned Llanddunwyd. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y Wig a Saint-y-brid oedd cynnwys Sealand Farm a dau lwybr troed yn mynd o Heol Las i'r clogwyni yng Nghymuned y Wig. Y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng y Wig a Llanddunwyd oedd cynnwys East Monkton Farm a West Monkton Farm yng Nghymuned y Wig.

6.14 Gwnaethom nodi bod y ddau lwybr eisoes naill ai yng Nghymuned y Wig neu yn rhannol yn ffurfio ffin Cymuned y Wig ac felly nid oedd angen adlinio'r ffin. O ran Sealand Farm, ystyriwyd er bod mynediad i'r Fferm drwy Gymuned y Wig, ni wyddys faint o'r tir cyfagos oedd yn berchen i'r Fferm ac felly ni ellid nodi ffin amgen briodol. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir, nid ydym o'r farn bod y newid awgrymedig i'r ffin rhwng Cymunedau'r Wig a Saint-y-brid yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mewn perthynas â Ffermydd East Monkton a West Monkton, ystyriwyd hefyd gan na nodwyd faint o'r tir cyfagos a oedd yn berchen i'r Ffermydd, nid oedd modd nodi ffin amgen briodol.

6.15 Yn ein hadroddiad ar y Cynigion Drafft, gwnaethom ofyn am fwy o gynrychiolaethau a gwybodaeth am y ffiniau awgrymedig ar ben y rheiny a oedd yn cael eu hystyried ar y pryd. Ni chawsom unrhyw gynrychiolaethau na gwybodaeth bellach yn awgrymu ffin amgen. Gan fod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir yn yr ardal hon, nid ydym o'r farn y byddai'r newid awgrymedig i'r ffin rhwng Cymunedau'r Wig a Llanddunwyd yn ddymunol er llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i ffin Cymuned y Wig.

Y Barri

6.16 Gwnaethom nodi'r newidiadau i ffiniau wardiau a awgrymwyd gan ddau Gynghorydd o Gyngor Tref y Barri yng Nghymuned y Barri. Gan fod yr arolwg hwn yn cael ei gynnal dan adran 55 y Ddeddf, rydym ond yn cael ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned (a fyddai'n cynnwys addasu ffiniau wardiau) sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Gan na wnaethom dderbyn unrhyw awgrymiadau am newid ffin Cymuned y Barri, mae gennym y grym i gynnig newidiadau i ffiniau'r wardiau. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried adolygu wardiau cymunedol Cyngor Tref y Barri.

Sain Tathan

6.17 Gwnaethom ystyried yr awgrym gan Gyngor Cymuned Sain Tathan, y dylid newid trefniadau etholiadol eu cymuned er mwyn lleihau nifer y Cynghorwyr yn Ward Sain Tathan a chynyddu nifer y Cynghorwyr yn Ward Trefflemin i adlewyrchu'r newidiadau i etholaeth pob ward yn well. Er yr ymddengys fod rhinwedd mewn adolygu trefniadau etholiadol y gymuned, ni allwn wneud hynny fel rhan o'r arolwg hwn.

6.18 Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal dan Adran 55 y Ddeddf, sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffin Cymuned Sain Tathan. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Sain Tathan. Fodd bynnag, fel yn 6.16 uchod, rydym yn cynnig y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried adolygu wardiau cymunedol Cyngor Cymuned Sain Tathan.

Gwenfô

6.19 Ystyriwyd yr awgrym gan Gyngor Cymuned Gwenfô y dylid newid trefniadau etholiadol eu cymuned i greu ward newydd ym Mharc y Gwenfô gan fod y Cyngor

o'r farn bod y boblogaeth yn cyfiawnhau'r newid. Er yr ymddengys fod rhinwedd mewn adolygu trefniadau etholiadol y gymuned, ni allwn wneud hynny fel rhan o'r arolwg hwn.

6.20 Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal dan Adran 55 y Ddeddf, sy'n ein caniatáu i wneud cynigion ar gyfer trefniadau etholiadol cymuned sy'n ôl-ddilynol ar newid i'r ffin gymunedol. Nid ydym wedi derbyn unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i ffin Cymuned Gwenfô. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cymuned Gwenfô. Fodd bynnag, fel yn 6.16 uchod, rydym yn cynnig y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried gwneud arolwg o wardiau cymunedol Cyngor Cymuned Gwenfô.

Ewenni

6.21 Gwnaethom nodi'r ohebiaeth gan Gyngor Cymuned Ewenni a phreswylydd o Ewenni yn cynnig newidiadau i'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r awgrymiadau'n golygu y byddai Ewenni yn disgyn yn gyfan gwbl ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Ewenni. Mae'r arolwg hwn yn arolwg o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac rydym o'r farn y byddai ystyried newidiadau i ffin ardal prif gyngor (Sir a Bwrdeistref Sirol) y tu allan i gylch gwaith yr arolwg hwn. Fel y gwnawn ym mhob achos, byddwn yn ystyried ceisiadau i gynnal arolwg o'r ffiniau rhwng ardaloedd prif gynghorau, ond fe wnaethom nodi ein bod wedi cynnal arolwg o'r ardal benodol hon mor ddiweddar â 1999 a chyn belled ag yr ydym yn ymwybodol, ni fu unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn yr ardal yn y cyfamser. Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newid y ffiniau rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Ffiniau Wardiau Cymunedol a Threfniadau Etholiadol y Barri, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Gwenfô

6.22 Mae angen ystyried y newidiadau a awgrymwyd i Ffiniau Wardiau Cymunedol a threfniadau etholiadol y Barri, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Gwenfô fel rhan o arolwg o drefniadau etholiadol Cymunedau y gallai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ei gynnal dan Adran 57(4) y Ddeddf. Rydym yn awgrymu felly bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn ystyried arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Tref y Barri, Cyngor Tref Llanilltud Fawr, Cyngor Cymuned Sain Tathan a Chyngor Cymuned Gwenfô. Gan ein bod i fod i gwblhau arolwg o drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg erbyn mis Mehefin 2011, byddem yn annog y Cyngor Bwrdeistref Sirol i wneud arolwg o drefniadau etholiadol eu cymunedau ar frys. Os na chaiff yr arolwg hwn ei gwblhau a Gorchymyn ei roi ar waith erbyn i ni ddechrau ein harolwg ni, byddwn yn gorfod defnyddio'r wardiau cymunedol fel y maent wrth ystyried patrwm yr adrannau etholiadol.

6.23 Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i weddill yr ardaloedd cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

7. CYNIGION

7.1 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni ar yr adeg hon o'n harolwg, rydym yn cynnig y dylid adlinio ffiniau Cymunedau Llandochau, Llan-maes, Llanilltud Fawr, Llanfihangel-y-pwll, Penarth, Pendeulwyn, Sili a Llanddunwyd yn yr ardal dan sylw gan ddilyn y ffiniau a ddangosir mewn gwyrdd ar y mapiau yn Atodiadau 3, 4, 5 a 6.

7.2 Gellir archwilio mapiau mwy manwl sy'n dangos y ffiniau newydd arfaethedig yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac yn swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

8. TREFNIADAU ÔL-DDILYNOL

8.1 Wrth ystyried y newidiadau amrywiol i'r ffiniau cymunedol, roedd hefyd yn ofynnol i ni ystyried yr effeithiau ar y trefniadau etholiadol ar gyfer cynghorau cymuned a'r prif awdurdod, a fyddai'n deillio o'r newidiadau hyn. Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn manylu ar ein cynigion ar gyfer newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Trefniadau Etholiadol Cynghorau Cymuned

8.2 Nid yw Cymuned Llandochau wedi'i wardio ac ar hyn o bryd cynrychiolir 1,474 o etholwyr gan 10 Cynghorydd (147 o etholwyr i bob Cynghorydd).

8.3 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Llanfihangel-y-pwll wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	**Ward**	**Etholwyr**	**Cynghorwyr**	**E/C***
Llanfihangel-y-pwll	Llanfihangel-y-pwll	178	5	36
	Lecwydd	75	2	38
		253	**7**	**36**

* Etholwyr i bob Cynghorydd

8.4 Yn ôl ein cynigion, bydd gostyngiad o 3 yn nifer etholwyr Cymuned Llandochau, sef cyfanswm o 1,471 a bydd cynnydd o 3 yn nifer etholwyr Llanfihangel-y-pwll, sef cyfanswm o 256.

8.5 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn ddigon arwyddocaol, ar hyn o bryd, fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob Cyngor Cymuned. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol Cynghorau Cymuned Llanfihangel-y-pwll na Llandochau.

8.6 Nid yw Cymuned Llan-maes wedi'i wardio ac ar hyn o bryd cynrychiolir 348 o etholwyr gan 7 Cynghorydd (50 o etholwyr i bob Cynghorydd).

8.7 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Llanilltud Fawr wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Trebefered, Gogledd, De-ddwyrain a Gorllewin. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llanilltud Fawr	Trebefered	2,159	3	720
	Gogledd	2,525	5	505
	De Ddwyrain	1,455	4	364
	Gorllewin	957	3	319
		7,096	**15**	**473**

8.8 Yn ôl ein cynigion bydd gostyngiad o 3 yn nifer etholwyr Cymuned Llanilltud Fawr, sef cyfanswm o 7,093 a bydd cynnydd o 3 yn nifer etholwyr Llan-maes, sef cyfanswm o 351.

8.9 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn ddigon arwyddocaol, ar hyn o bryd, fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob Cyngor Cymuned. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y cais gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr i adolygu'r trefniadau etholiadol yn Ward Trebefered. Yn ogystal â hyn, er mwyn creu cydraddoldeb gwell yng nghymuned Llanilltud Fawr, rydym yn gwneud y cynigion canlynol ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol Cyngor Tref Llanilltud Fawr.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Llanilltud Fawr	Trebefered	2,159	4	540
	Gogledd	2,525	5	505
	De Ddwyrain	1,455	3	485
	Gorllewin	957	2	479
		7,096	**14**	**507**

8.10 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Penarth wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Cornerswell, Plymouth, St Augustine's a Stanwell. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Penarth	Cornerswell	3,946	4	987
	Plymouth	4,432	4	1,108
	St Augustine's	4,479	5	896
	Stanwell	3,189	3	1,063
		16,046	**16**	**1,003**

8.11 Ar hyn o bryd, at ddibenion etholiadol cymunedol, mae Cymuned Sili wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol Larnog a Sili. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer yr etholwyr a chynghorwyr ar gyfer pob ward.

Cymuned	Ward	Etholwyr	Cynghorwyr	E/C*
Sili	Larnog	756	1	756
	Sili	2,600	8	325
		3,356	**9**	**373**

8.12 Yn ôl ein cynigion, bydd gostyngiad o 45 yn nifer etholwyr Cymuned Sili, sef

cyfanswm o 3,311 a bydd cynnydd o 45 yn nifer etholwyr Penarth, sef cyfanswm o 16,091.

8.13 Rydym o'r farn nad yw'r newidiadau i nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn ddigon arwyddocaol, ar hyn o bryd, fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob Cyngor Cymuned. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol Cynghorau Cymuned Sili na Phenarth.

Trefniadau Etholiadol y Cyngor Bwrdeistref Sirol

8.14 Mae gan adran etholiadol Dinas Powys, sy'n cynnwys Cymunedau Dinas Powys a Llanfihangel-y-pwll, 6,164 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 4 Cynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn Ninas Powys yn cynyddu i 6,167.

8.15 Mae gan adran etholiadol Llanilltud Fawr, sy'n cynnwys Cymunedau Llan-maes, Llanilltud Fawr a Llanddunwyd, 7,874 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 4 Cynghorydd. Ni fyddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Llan-maes a Llanilltud Fawr yn cael unrhyw effaith ar nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Llanilltud Fawr.

8.16 Mae gan adran etholiadol Plymouth, sy'n cynnwys ward Plymouth yng Nghymuned Penarth, 4,432 o etholwyr ar hyn o bryd a gynrychiolir gan 2 Gynghorydd. Byddai'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili yn golygu y byddai nifer yr etholwyr yn adran etholiadol Plymouth yn cynyddu i 4,477.

8.17 Ar gyfer yr holl adrannau etholiadol a nodir uchod, rydym o'r farn nad yw'r newidiadau yn nifer yr etholwyr o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau mor arwyddocaol fel bod angen cynyddu neu leihau nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob adran etholiadol ar hyn o bryd. Rydym wedi cael ein cyfarwyddo i gwblhau arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob un o'r prif gynghorau yng Nghymru erbyn 30 Mehefin 2011. Felly, byddwn yn edrych yn fanwl ar drefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg cyn bo hir, ac yn ystyried unrhyw newidiadau sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig hyn i ffiniau cymunedol.

9. CYDNABYDDIAETHAU

9.1 Dymunwn ddiolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a'r Cynghorau Cymuned am eu cymorth ac i bob unigolyn a chorff a gyflwynodd gynrychiolaethau i ni.

10. Y CAMAU NESAF

10.1 Trwy ystyried adolygu'r Ffiniau Cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a chyflwyno ein hargymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru, rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaeth statudol dan y Ddeddf.

10.2 Nawr, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yw eu derbyn neu gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg pellach, fel y mae'n gweld orau.

10.3 Dylid cyfeirio unrhyw gynrychiolaethau pellach ynghylch y materion yn yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid eu gwneud cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylid cyfeirio'r cynrychiolaethau at:

Tîm Democratiaeth
Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

MR P J WOOD (Cadeirydd)

Y PARCH. HYWEL MEREDYDD DAVIES BD (Dirprwy Gadeirydd)

Mr D J BADER (Aelod)

E H LEWIS BSc. DPM FRSA FCIPD (Ysgrifennydd)

Medi 2009

GWEINIDOGION CYMRU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 RHAN IV

CYFARWYDDYD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU (ADOLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL)(BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG) 2008

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddyd canlynol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru trwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[1] yr arferir y pwerau hynny bellach gan Weinidogion Cymru[2]:

1. Yn y Cyfarwyddyd hwn:

Ystyr "y Ddeddf " ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

Ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

2. Yn unol ag adran 56(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o ffiniau cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg er mwyn ystyried a ddylid gwneud y cyfryw gynigion mewn perthynas â'r ardal a adolygir ag yr awdurdodir gan adran 54 o'r Ddeddf a pha gynigion, os oes rhai, i'w gwneud; a rhaid i'r Comisiwn, os gwêl yn dda, lunio'r cynigion hynny yn unol â hynny.

Dr Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 31/3/2008

---

(1) 1972 c.70; diwygiwyd adran 56 gan Ddeddf Llywodraeth Leol(Cymru) 1994.

(2) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a drosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Cynulliad wedyn i Weinidogion Cymru gan Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c.38).

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a Dderbyniwyd mewn Ymateb i'r Cynigion Drafft

Cytunodd **Cyngor Tref y Barri** i gefnogi'r cynigion drafft blaenorol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad drafft.

Cynigodd **Cyngor Cymuned Ewenni** arolwg pellach o ffiniau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg er mwyn unioni anghysondeb y rhaniad ym mhentref Ewenni. Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod Ewenni yn disgyn yn gyfan gwbl i Fro Morgannwg a Chyngor Cymuned Ewenni.

Mae **Cyngor Cymuned Llandochau** yn cefnogi'n llawn y cynnig i gynnwys yr eiddo a adwaenir fel Croft Mawr yng Nghymuned Llanfihangel-y-pwll.

Nid oedd gan **Gyngor Tref Llanilltud Fawr** unrhyw wrthwynebiad i'r newidiadau arfaethedig i'r ffin.

Nid oedd gan **Gyngor Cymuned Llanddunwyd** unrhyw wrthwynebiad i'r newid arfaethedig yn ei ardal.

Ysgrifennodd **Madeleine Moon, AS ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr** ar ran un o'i hetholwyr a gododd y mater o hysbysiadau ynghylch cyfarfod yn Saint-y-brid i drafod rhannu'r cyngor cymuned, gan fod cyn lleied o bobl yn bresennol. Gofynnwyd am estyniad i'r dyddiad ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau er mwyn rhoi mwy o amser i breswylwyr leisio eu barn.

Ysgrifennodd **Jane Hutt, AC Bro Morgannwg** o blaid barn yn o'i hetholwyr a oedd yn erbyn y cynnig i rannu cymuned Saint-y-brid.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Barry Shaw**, **Ward Castleland, Cyngor Tref y Barri** i amlinellu anghysondebau ychwanegol yn ffiniau'r wardiau yn ardal Cyngor Tref y Barri.

Roedd yr anghysondebau canlynol wedi'u seilio ar ardal y cymunedau y maent yn gysylltiedig â nhw a/neu leoliad yr orsaf bleidleisio agosaf:

- Dylid symud rhan o Stryd Rhydychen, sydd yn ward Illtyd ar hyn o bryd, i ward Baruc.
- Dylid symud Pearce Court, sydd yn ward Cwrt ar hyn o bryd, i ward Gibbonsdown.
- Dylid symud Weycock Road, sydd yn ward Dyfan ar hyn o bryd, i ward Illtyd.
- Dylid symud Enfield Drive, rhan o Highlight Lane, Liscum Way, Purdey Close a Whitmore Park Drive, sydd yn ward Illtyd ar hyn o bryd, i ward Dyfan.
- Dylid symud Glen Affrick Close, Glen Mavis Way a Green Banks Drive, sydd yn ward Illtyd ar hyn o bryd, i ward Dyfan.

Ar ben hynny, nododd fod anghydbwysedd yn nifer y Cynghorwyr i etholwyr mewn rhai wardiau yng Nghyngor Tref y Barri. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor 22 o aelodau ac awgrymwyd y dylai hwn fod yn odrif yn hytrach nag yn eilrif. Nodwyd yr anghysondebau canlynol:

- Mae gan ward Cadoc, sydd â 6,500 o etholwyr, 3 chynghorydd yn unig.

- Mae gan wardiau Castleland a Chwrt etholaethau tebyg, sef 2,900, ond mae gan Gwrt 3 chynghorydd a Castleland 2.
- Mae gan ward Dyfan etholaeth fwy na Chwrt a Gibbonsdown yn ôl eu trefn, ond dim ond 2 aelod etholedig o'u cymharu â 3 yng Nghwrt a Gibbonsdown.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Alan Morgan o Saint-y-brid** mewn cymhwyster personol i ailadrodd y sylwadau a wnaed ganddo yn ystod y rownd ymgynghori gyntaf, gan gredu bod y cyflwyniadau cychwynnol a dderbyniwyd gan y Comisiwn yn gryf o blaid creu cyngor cymuned ar wahân yn Aberogwr.

Mewn perthynas â Southerndown, roedd hefyd am ailadrodd ei gefnogaeth ar gyfer creu ward ar wahân i'r pentref. Mae'n credu bod Southerndown yn haeddu ei gynrychiolydd penodol ei hun, p'un a yw'r pentref yn cael ei gynnwys yng nghymuned Saint-y-brid neu Aberogwr. Nododd y bu i'r Comisiwn wrthod y cynnig hwn yn wreiddiol ar y sail bod 'y trefniadau wardio…yn hir sefydlog'. Nid yw'n derbyn bod hon yn ddadl ddilys a nododd fod yr adroddiad drafft yn gwneud sawl cynnig ar gyfer newid a'i fod yn tybio bod pob un ohonynt yn newid trefniadau 'hir sefydlog'. Mae o'r farn bod nifer sylweddol o breswylwyr Southerndown yn rhannu ei farn a hoffai iddynt gael eu cynrychiolydd penodol eu hunain.

Aeth ymlaen i nodi bod y Comisiwn wedi derbyn cynnig gan Gyngor Cymuned y Wig i newid y ffin gymunedol fel bod Sealand Farm yn cael ei symud o Saint-y-brid a'i gynnwys yng nghymuned y Wig. Mae o blaid y cynnig hwn, ac roedd wedi synnu nad yw'r eiddo eisoes yn rhan o gymuned y Wig. Nid oedd yn gallu gweld sut y byddai cadw'r ffin fel y mae yn gydnaws â darparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Christina Davison o Aberogwr** gyda phryderon ynghylch y modd y ceisiwyd barn yn Aberogwr am y newid i'r ffin.

Cytunwyd ar gynnig yng nghyfarfod y cyngor a oedd yn caniatáu i gynghorwyr weithredu'n unigol ac nid fel cynghorwyr. Wedi hynny, cynhaliwyd dau ymarfer canfasio dwys ar gyfer rhaniad yn Saint-y-brid gan aelodau o'r cyngor cymuned. I ddechrau, cynhaliwyd yr ymarfer canfasio yn Aberogwr trwy ddosbarthu cynrychiolaeth unigol ar ffurf ffurflen, ond dywed na dderbyniodd un o'r rhain.

Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Ebrill i drafod y newid ac, er i 300 o bobl lofnodi'r ffurflen yn wreiddiol, dim ond 14 o bobl oedd yn bresennol. Mae'n gofyn, gan yr ymddengys fod gwrthwynebiad mawr yn erbyn aros gyda Saint-y-brid, pam yr oedd cyn lleied o bobl yn bresennol yn y cyfarfod.

Gan i Southerndown fynegi'r dymuniad i sefyll ar ei ben ei hun, penderfynwyd dosbarthu taflenni yn yr ardal gan annog preswylwyr i gefnogi cysylltiad ag Aberogwr ac anfon unrhyw gynrychiolaethau pellach. Dywed ei bod wedi gofyn am refferendwm er mwyn i breswylwyr y tair cymuned benderfynu, ond gwrthodwyd hyn ar sail y gost.

Mae'n datgan ei phryderon fel a ganlyn:

- Nid yw ffurflen unigol yn ffordd gywir o gynrychioli barnau pobl, mae'n llofnodi rhagsyniad.
- Nid yw'r preswylwyr wedi'u cynrychioli gan gyngor cymuned Saint-y-brid yn yr un modd â'r holl gynghorau eraill yn yr adroddiad drafft. Cytunwyd ar gynnig yng nghyfarfod y cyngor i bob cynghorydd weithredu'n annibynnol.

- Cred ei bod yn ymddangos fod rhai preswylwyr wedi'u rhoi dan bwysau i lofnodi'r ffurflen cyn cael amser i'w darllen.
- Ynghylch y ffaith nad oes unrhyw beth ar gael i Aberogwr, mae arian ar gael gan Adnewyddu Trefol. Mae wedi galw am i geisiadau gael eu gwneud ar gyfer lle chwarae i blant, ond ychydig iawn o symudiad a fu mewn perthynas â'r cais ar gyfer y grant hwn.
- Gwnaed cais i adeiladu neuadd bentref, ond erbyn hyn mae'r caniatâd cynllunio wedi dod i ben ac mae'r arian ar ei chyfer yn cael ei gadw gan ddau gynghorydd sy'n ymddiriedolwyr. Mae'n anodd cael mynediad at wybodaeth. Heb neuadd, lle fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal? Os defnyddir neuadd Saint-y-brid, codir tâl am hynny.
- Ymddengys fod rhai preswylwyr yn credu y byddai'r rhaniad yn golygu bod Aberogwr yn dychwelyd i Ben-y-bont ar Ogwr yn hytrach nag aros ym Mro Morgannwg, lle maent yn tybio y byddai gwasanaethau'n gwella.
- Gan y byddai'r praesept yn llai, ni fyddai arian ar gyfer ar gyfer cyllid cyfatebol.
- Dylai pentrefi gydweithio â'i gilydd i ddeall problemau ei gilydd yn hytrach na gwahanu a rhannu cymunedau.
- Fel cynghorydd er mis Mai 2008 sy'n falch o wasanaethu preswylwyr Aberogwr, nid yw'n credu y byddai rhannu cymuned bresennol Saint-y-brid o fudd i'r gymuned. Nid yw'n credu bod y ddwy ochr i'r ddadl wedi'u cyflwyno i'r preswylwyr, gan eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.

Ysgrifennodd y **Cynghorydd Chris Howell o Aberogwr** mewn cymhwyster personol mewn ymateb i'r cynigion drafft ar gyfer Cymuned Saint-y-brid. Fel dadleuwr brwd o blaid creu cyngor cymuned newydd yn seiliedig ar ward Aberogwr, roedd yn falch iawn o ddarllen bod y Comisiwn yn credu bod rhinwedd i'r syniad ac roedd yn croesawu gwahoddiad y Comisiwn i bartïon â diddordeb wneud cynrychiolaethau pellach. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ymunodd â gwirfoddolwyr eraill o'r gymuned i geisio barn ei gydbreswylwyr. Er ei fod yn disgwyl mwyafrif cryf o blaid llais annibynnol ar gyfer yr ardal, cafodd ei synnu gan y mwyafrif enfawr a chryfder teimladau pobl leol a oedd yn mynnu'r newid. Mae'r broses Arolwg Cymunedol wedi creu cyffro go iawn yn y ward. Mae pobl leol a oedd yn teimlo "nad yw unrhyw beth yn cael ei wneud ar ein cyfer" wedi ymgysylltu â gwleidyddiaeth leol unwaith eto. Mae ganddynt obeithion go iawn y caiff y newidiadau arfaethedig eu rhoi ar waith ac y byddant yn cael cyfle i ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio ar eu cymuned.

Cymerodd ran mewn cynnal arolwg o'r preswylwyr lleol. Dangosodd yr arolwg hwn gefnogaeth enfawr i'r cynnig. O hapsampl o 420 o breswylwyr, roedd 406 ohonynt o blaid, gan roi mwyafrif enfawr o 97 y cant. Roedd y 406 o bobl hyn yn cynrychioli mwyafrif absoliwt o etholwyr y ward. Siaradodd ag ugeiniau o bobl yn ystod yr arolwg a chafodd ei synnu pa mor wybodus oedd y rhan fwyaf o bobl am y mater a pha mor awyddus oedd cymaint ohonynt i roi eu henwau o blaid y cynnig. Yn debyg i wirfoddolwyr eraill, clywodd yr un ymadroddion drosodd a throsodd, fel "Mae'n hen bryd", "Rydym wedi cael ein hepgor yn rhy hir" ac "Nid yw ein cymuned yn cael unrhyw beth". Roedd cryfder y teimladau a'r ymdeimlad o achwyniad yn amlwg, fel yr oedd y cyffro a grëwyd gan y syniad o greu ein Cymuned ein hunain yn y dyfodol agos.

Mae'r Cynigion Drafft hefyd yn adrodd y byddai'r Comisiwn yn croesawu sylwadau a chynrychiolaethau pellach gan breswylwyr ardal Southerndown. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd y Cyngor Cymuned daflen a'i dosbarthu i bob aelwyd yn yr ardal. Wedi

hynny, ymunodd â gwirfoddolwyr i geisio barnau trwy arolwg, ac mae'r canlyniadau'n dweud y cwbl, gyda 70 y cant o hapsampl o breswylwyr o blaid creu Cymuned newydd wedi'i chyfuno â ward Aberogwr. Roedd y rhesymau a roddwyd o blaid ymuno ag Aberogwr yn cynnwys y canlynol:

- Mae Aberogwr a Southerndown yn bentrefi glan môr sy'n cael eu cysylltu'n agos gan ddaearyddiaeth yr arfordir. Mae'r morlin sy'n cysylltu'r ddau bentref (ac sydd wedi denu llawer o'r preswylwyr i ymgartrefu yma) yn ardal hamdden sy'n cael ei rhannu gan y ddwy gymuned. Yn gyffredinol, mae cerddwyr, brigdonwyr, caiacwyr, pysgotwyr môr a'r rheiny sy'n mynd i'r traeth yn defnyddio'r rhan hon o'r Arfordir Treftadaeth i gyd o afon Ogwr Fawr i Witches Point fel "eu tir".

- Mae bod yn bentrefi glan môr yn dod â phroblemau tebyg i'r ddwy ardal gyda niwsans traffig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr haf.

- Dyfynnodd pobl gysylltiadau cymdeithasol agos rhwng Aberogwr a Southerndown, yn enwedig ymhlith teuluoedd iau. Mae Southerndown wedi denu nifer fawr o deuluoedd ifanc yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, fel y mae Aberogwr yntau, ac mae gan lawer ohonynt hobïau a diddordebau tebyg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau arfordirol. Mae'r gymuned hon o ddiddordebau wedi helpu i feithrin cysylltiadau cymdeithasol rhwng y pentrefi a disgwylir i'r duedd hon barhau wrth i'r diddordeb mewn gweithgareddau hamdden awyr agored gynyddu. Caiff y dafarn ym mhentref Southerndown ei defnyddio gan nifer o breswylwyr Aberogwr, yn enwedig ers i'r dafarn olaf ym mhentref Aberogwr gau yn 2005.

- Mae preswylwyr Aberogwr wedi dangos yn glir y byddant yn croesawu cynnwys Southerndown mewn Cymuned newydd, gydag 80 o'r ymatebwyr yn arolwg Aberogwr yn pleidleisio o blaid cynnwys Southerndown pe byddai preswylwyr Southerndown am ymuno â nhw.

- Crybwyllwyd cysylltiadau hanesyddol hefyd. Roedd y tir cyffredin ar hyd yr Arfordir Treftadaeth o Fae Dwnrhefn i afon Ogwr Fawr yn cael ei alw'n "The Downs", felly "Southerndown". Southerndown oedd yr anheddiad mwyaf ar gyfer llawer o'i hanes ac roedd Aberogwr (nad oedd ag enw ar y pryd) yn estyniad anghysbell i Southerndown.

- Mae Southerndown hefyd yn dioddef o ddiffyg cyfleusterau cymunedol, yn yr un modd ag Aberogwr. Mae'r duedd o leoli cyfleusterau yn Saint-y-brid wedi gadael Southerndown gydag eglwys, bwyty a thafarn yn unig. Mae ymdeimlad cryf bod y pentref yn cael ei hepgor wrth ddyrannu adnoddau.

- Mae'r tebygolrwydd rhwng y ddwy gymuned mewn perthynas â materion datblygu yn amlwg hefyd. Fel Aberogwr, gallai Southerndown weld cynnydd sylweddol yn ei faint yn ystod y cylch cynllunio 15-mlynedd nesaf. Pe byddai'r cynigion sydd gerbron Cyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn cael eu derbyn, gallai hynny ddyblu nifer y tai yn y pentref.

Roedd hefyd yn amlwg o'r ymgynghoriad bod gan Southerndown ei hunaniaeth gymunedol gref ei hun ac fe adlewyrchwyd hyn yn y ganran uchel (75%) o bobl a oedd am i Southerndown allu ethol ei gynrychiolydd ei hun i unrhyw Gyngor Cymuned a fyddai'n

cwmpasu'r ardal. Cred y byddai ward Southerndown mewn Cymuned newydd gydag Aberogwr yn rhoi cyfle i Southerndown chwarae'r rhan bwysig mewn materion lleol y mae'n ei haeddu. Mae hefyd yn cynnig, os caiff Cymuned debyg ei chreu, y dylid ei galw'n "Southerndown ac Ogwr". Byddai'n rhoi "Southerndown" yn gyntaf gan y byddai'n atgoffa nad yw bod yn anheddiad llai yn gwneud ei anghenion yn llai pwysig a byddai'n defnyddio "Ogwr" yn hytrach nag "Aberogwr" er mwyn peidio ag eithrio aneddiadau Pentref Ogwr a Norton. Cred y gall enw wedi'i ddewis yn dda wneud gwahaniaeth mawr i ganfyddiadau cyhoeddus.

Yn y Cynigion Drafft, mae'r Comisiwn hefyd yn croesawu cynrychiolaethau gan "Gymuned gyfan Saint-y-brid". Gwnaeth y Cyngor Cymuned ymdrech i fynnu cynrychiolaethau gan y pentref, fel y gwnaeth ef gyda chymorth gwirfoddolwyr o Saint-y-brid, ond canfuwyd nad oedd llawer iawn o ddiddordeb yn y broses. Dim ond tri o breswylwyr Saint-y-brid oedd yn bresennol yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned a drefnwyd i drafod y mater, a dim ond dau breswylydd a roddodd eu henwau ar ddeiseb yn y siop leol. Ymddengys fod pobl yn y pentref yn ymwybodol y gallai'r gymuned gael ei rhannu'n ddwy, ond nid oedd gan y mwyafrif ohonynt farn gref am y syniad. O dystiolaeth anecdotaidd, ymddengys mai'r farn gyffredinol oedd "Os yw Ogwr am fynd ei ffordd ei hun, ni ddylem ei hatal". Yng nghyfarfod arbennig y Cyngor Cymuned, dywedodd un preswylydd y byddem yn creu rhaniadau a drwgdeimlad rhwng y cymunedau, ond ymddengys ei fod yn derbyn yr wrthddadl fod y sefyllfa bresennol yn creu dicter ar un ochr y gellid ei unioni trwy ddwy Gymuned yn cydweithio â'i gilydd fel partneriaid cyfartal.

Mae'r gwrthwynebiad mwyaf cydunol i greu Cymuned newydd, y mae'n ymwybodol ohono, wedi dod gan actifyddion gwleidyddol lleol sy'n cefnogi'r sefyllfa bresennol. Mae'n deall y rhesymau pam ond yn credu'r gryf na ddylai gwleidyddiaeth plaid chwarae unrhyw ran mewn gwleidyddiaeth Gymunedol. Ymddengys fod yr etholaeth leol yn cytuno â'r farn hon gydag ond tri o aelodau pleidiau o un ar ddeg o Gynghorwyr Cymuned yn Saint-y-brid yn ennill seddi fis Mai y llynedd, a phob un o'r rhain yn honni nad yw cysylltiad â phlaid yn chwarae unrhyw ran yn y modd y byddant yn cynrychioli'r etholaeth. Nid yw'n credu y dylai hunanfuddiant pleidiau gwleidyddol gael unrhyw ddylanwad ar yr Arolwg Cymunedol. Dywed na fydd yn ailddatgan y rhesymau a roddwyd ganddo mewn gohebiaeth flaenorol i gefnogi Cymuned newydd yn yr ardal. Mae'n glynu wrth y rhesymau hynny ac erbyn hyn yn sicr bod y mwyafrif helaeth o bobl Aberogwr yn mynnu eu Cymuned eu hunain ac y byddai'n well gan y mwyafrif helaeth o bobl Southerndown gael eu cynnwys gydag Aberogwr yn hytrach na Saint-y-brid, pe byddai'n rhaniad yn digwydd. Mae'n glynu wrth y rhesymau a roddwyd gerbron y Comisiwn yn gynharach ganddo ef a llawer o bobl eraill, ac yn cefnogi'r rhesymau a roddwyd yn y llythyr a anfonwyd gan ugeiniau o breswylwyr Aberogwr mewn ymateb i Gynigion Drafft y Comisiwn.

Mae'n gobeithio'n ddiffuant y bydd yr arddangosiad eithriadol o undod o blaid newid ward Aberogwr a'r gefnogaeth gref dros gynnwys Southerndown yn helpu i ddarbwyllo'r Comisiwn i argymell Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu Cymuned newydd Southerndown ac Ogwr. Mae'n credu'n ddiffuant y byddai trefniant Cymunedol newydd tebyg yn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 i ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Yn ogystal â'r llythyr hwn, amgaeodd adroddiad o ymatebion i arolwg a deiseb gan breswylwyr lleol a gynhaliwyd gan wirfoddolwyr yn Aberogwr.

Ysgrifennodd **preswylydd o Lanilltud Fawr** i wrthwynebu'r newid arfaethedig i'r ffin yn ardal Llan-maes / Llanilltud Fawr. Ysgrifennodd gan ddweud ei fod yn teimlo'n gryf, fel

perchennog un o'r eiddo dan sylw, gan gynnwys rhywfaint o'r tir cyfagos, y dylid fod wedi ei hysbysu am y cynigion i newid y ffin. Dim ond ar hap y gwelodd erthygl fach yn y papur newydd lleol, ac yn dilyn ymholiadau byr, nid oedd wedi gallu canfod ym mha bapur newydd lleol y cyhoeddwyd yr hysbysiad cyhoeddus.

Er nad yw'n byw yn yr eiddo ar hyn o bryd, pan oedd yn byw yno roedd yn teimlo'n hollol arunig oddi wrth y gymuned yn Llan-maes, ac roedd unrhyw weithgareddau yr oedd ef a'i deulu yn cymryd rhan ynddynt wedi'u lleoli yn Llanilltud Fawr. Mae'n bwriadu byw yn yr eiddo yn y dyfodol, ac mae'n teimlo y byddai hyn yn wir iddo ef neu unrhyw un arall yn byw yn yr eiddo o hyd, pe byddai'r ffin yn cael ei newid.

Mae wedi ymweld â'r Cynghorydd Gwyn John o Gyngor Tref Llanilltud Fawr ac wedi mynegi ei farn nad yw'n gallu gweld unrhyw fantais i'r preswylwyr neu'r eiddo dan sylw, nac i bentref Llan-maes, drwy newid y ffin. Mae am i'w wrthwynebiad gael ei nodi.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** gyda'r pwyntiau canlynol:
Ar ôl symud i'r gymuned 32 blynedd yn ôl a magu dau blentyn sydd bellach yn oedolion, roedd y cyfleusterau yn Ogwr yn gyfyng bryd hynny hyd yn oed. Roedd caffi lle'r oedd y preswylwyr yn gallu ymgynnull, ond gwerthwyd hwnnw beth amser yn ôl a'i droi'n eiddo preswyl. Tan yn ddiweddar, roedd 3 thafarn, y gwerthwyd dwy ohonynt a'u troi'n fflatiau ac mae'r dafarn a oedd yn weddill wedi cau. Mae Ogwr wedi bod yn berthynas dlawd erioed mewn materion llywodraeth leol.

Ar ôl siarad â nifer o breswylwyr yn y ward, cytunodd y mwyafrif ohonynt y dylent gael eu Cyngor Cymuned eu hunain. Mae llawer ohonynt wedi mynychu cyfarfodydd y cyngor ac wedi gweld y problemau sy'n cael eu hwynebu. Mae cyfran uchel o'r preswylwyr yn oedrannus a hoffent gael neuadd bentref y gallant gerdded iddi a threfnu digwyddiadau ynddi. Gan fod Cyngor y Fro wedi rhoi'r holl gyfleusterau yn Saint-y-brid, ond wedi dweud bod y cyfleusterau hynny yn ddigon ar gyfer wardiau eraill, mae Ogwr wedi colli allan. Yn y byd sydd ohoni gyda llifoedd traffig uchel, mae'n anodd cerdded yn bell os ydych yn fethedig/anabl. Mae hyn hefyd yn berthnasol i deuluoedd â phlant, sy'n gorfod teithio mewn car i fynd i le chwarae neu ysgol yn Saint-y-brid. Gallai costau cynyddol tanwydd gwtogi ar eu defnydd o gyfleusterau.

Ymddengys nad oes llawer yn gyffredin rhwng preswylwyr Saint-y-brid ac Aberogwr. Pan fo preswylwyr Aberogwr wedi gorfod brwydro dros faterion pwysig, nid yw preswylwyr Saint-y-brid wedi'u helpu. Gan fod gan Aberogwr y gyfran fwyaf o breswylwyr ag anghenion gwahanol a bod cyn lleied o ryngweithio rhwng y pentrefi, mae'n hen bryd i Aberogwr gael ei Gyngor Cymuned ei hun.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** i ddiolch i'r Comisiwn yn gyntaf am gynnal yr arolwg, gan fod Cyngor y Fro wedi bod yn ddiffygiol yn hynny o beth. Roedd wedi bod yn Gynghorydd Cymuned ar gyfer ward Ogwr tan yn ddiweddar, lle'r oedd wedi cael ei gam-drin a'i fychanu gan rai o 'Gynghorwyr yr hen dro' nad oedd ganddynt unrhyw ddealltwriaeth o'r problemau yn ward Ogwr, ac nad oeddent yn dymuno eu deall chwaith.

Mae Ogwr yn gymuned ifanc a blaengar gyda chyfres wahanol o broblemau i ward Saint-y-brid. Un o'r problemau mwyaf yn Ogwr yw ei hanallu i adeiladu neuadd bentref fel calon y gymuned. Yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn Ogwr, mynegodd cyngor Saint-y-brid nad oedd angen i Ogwr gael neuadd bentref. Yr esboniad a roddwyd oedd bod cyfleusterau digonol yn Saint-y-brid. Symudodd hyn Ogwr o flaen y ciw i'r cefn ac nid

yw erioed wedi ailddarganfod ei safle oherwydd cyfyngiadau ariannol. Pe byddai Ogwr yn cael ei chyngor ei hun, byddai'r sefyllfa ddiddatrys yn newid a byddai'n rhaid symud Ogwr i ben y rhestr gan nad oes gan yr ardal gyfleusterau cyhoeddus. Fel pensiynwr, mae'n teimlo'n sownd heb unrhyw le cyfarfod, a chyda chostau teithio yn cynyddu, mae'n teimlo'n garcharor mewn ardal brydferth heb unrhyw gyfleusterau.

Roedd yn cytuno'n llwyr ag integreiddio ward Southerndown â ward Ogwr, os yw preswylwyr Southerndown yn awyddus i wneud hynny. Mae gan Southerndown broblemau tebyg iawn i Ogwr, gan eu bod ar yr arfordir gyda dylifiad o ymwelwyr yn ystod yr haf yn achosi problemau parcio, cynnau tanau, fandaliaeth a gyrru oddi ar y ffordd. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl nad yw Southerndown yn gweld y fantais o ymuno ag Ogwr, ond pe byddai Ogwr yn cael ei Chyngor ei hun yn y dyfodol, gallent gydweithio â'i gilydd i ddatrys y problemau tymhorol cylchol.

Roedd yn edrych ymlaen at y dyfodol gyda Chyngor Cymuned newydd yn gallu cydweithio â wardiau a Chynghorau cyfagos i ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Ysgrifennodd **dau breswylydd o Aberogwr** i ddweud eu bod wedi astudio'r cynigion drafft, a bod ganddynt safbwyntiau sy'n gwrthdaro ar y cynnig i greu cyngor newydd yn Aberogwr. Cyn yr etholiad yn 2008, roedd gan Gyngor Saint-y-brid fodolaeth gythryblus a gwnaed ychydig iawn er budd y gymuned ac ni wnaed unrhyw waith cynnal a chadw ar eiddo'r cyngor. Yn dilyn yr etholiad, mae'r cyngor newydd wedi datrys y rhan fwyaf o'r problemau ac wedi rhoi rhaglen cynnal a chadw ar waith ar gyfer yr eiddo y mae'n gyfrifol amdano. Erbyn hyn, mae pentrefi Saint-y-brid ac Ogwr yn cydweithio'n berffaith er budd y gymuned. Gyda hynny mewn cof, byddant yn anfodlon cytuno â rhaniad ac â ffurfio cyngor newydd.

Ar y llaw arall, mae Cynllun Datblygu Uned Cyngor y Fro ar gyfer y dyfodol yn crybwyll tir a ddyrannwyd ar gyfer tua 500 o dai yng Ngwersyll Ysgol Ogwr. Byddai problemau traffig, dŵr wyneb a draeniau budr yn broblem fawr ar gyfer y datblygiad hwn. Os caiff y CDU ei gymeradwyo, yna bydd angen ei gyngor ei hun ar Aberogwr yn bendant. Pe byddai'r bleidlais o blaid cadw'r sefyllfa bresennol, yna ni fyddai unrhyw ffordd o wrthdroi'r penderfyniad hwnnw pe byddai Cyngor y Fro yn datblygu ardal y Gwersyll Ysgol. Ar sail yr angen am dai newydd yn y DU, roeddent yn credu y byddai Cyngor y Fro yn caniatáu'r datblygiad yn Aberogwr yn y dyfodol, felly byddai angen ei Gyngor eu hun arno.

Roeddent o'r farn mai'r unig ffordd i ddiogelu buddiannau preswylwyr Aberogwr yw manteisio ar yr awgrym i rannu Cyngor Cymuned Saint-y-brid i greu dau Gyngor Cymuned newydd, sef Saint-y-brid ac Aberogwr, gan gynnwys Southerndown sydd wedi'i hesgeuluso fel cymuned am gyfnod rhy hir o lawer.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** i fynegi ei anfodlonrwydd â'r cynnig i rannu Cyngor Cymuned Saint-y-brid. Dywed fod gan Ogwr gynrychiolaeth dda ar y Cyngor ac os yw cyfleusterau yn Ogwr ei hun wedi'u hesgeuluso, nad yw hynny o ganlyniad i ddiffyg cynrychiolaeth. Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r problemau a grybwyllwyd ar y ffurflen a lofnodwyd gan breswylwyr yn rhan o gylch gwaith y cyngor, pe byddai hwnnw yn Ogwr neu Saint-y-brid. O ran lleoliad, o ystyried pa mor agos y mae'r ardal fach mewn gwirionedd, mae'n gofyn a yw o bwys beth yw enw'r cyngor. Os yw gwleidyddion lleol yn gweld yr angen i geisio barn pobl, yna dylent guro ar ddrysau a siarad â phobl, yn hytrach na chynnal arolygon y mae'n bosibl na fyddant yn dangos unrhyw beth o gwbl, heblaw ymarfer mewn 'democratiaeth' honedig. Â ymlaen i ddweud y gallai hyn, mewn

gwirionedd, ystumio barn y mwyafrif, gyda'r posibilrwydd o edrych ar bethau nad oes gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb ynddynt. Ei farn ef oedd, gorau po leiaf y cynghorwyr a'r cynghorau.

Tynnodd **preswylydd o Aberogwr** sylw at y ffaith nad oedd yn ymwybodol bod 'cyfarfod arbennig' wedi'i gynnal yn neuadd yr eglwys yn Saint-y-brid ar 23 Mawrth, ac y byddai llawer mwy o bobl wedi bod yn bresennol pe byddai'r cyfarfod wedi cael mwy o gyhoeddusrwydd.

Mewn perthynas â'r cynnig i wahanu'r ddwy gymuned, nid oedd yn gallu gweld unrhyw resymau ymarferol dros wneud hynny. Byddai rhedeg dau gyngor yn arwain at gostau ychwanegol, ac roedd hefyd yn amlwg iddi fod rhywfaint o 'greu ymerodraethau' yn digwydd. Gofynnodd a oedd angen yr holl gynghorwyr hyn yn penderfynu ychydig iawn ar unrhyw beth.

Mae'r ffaith bod Saint-y-brid, Southerndown ac Aberogwr wedi'u cysylltu yn gwneud synnwyr oherwydd eu maint a'u poblogaeth gymharol fach, ac ymddengys fod hyn wedi gweithio'n dda dros y 50 mlynedd diwethaf. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn ymddangos o adroddiadau yn y wasg bod y Cynghorwyr wedi bod yn ffraeo mewn cyfarfodydd ac nad yw hynny'n rheswm da i rannu dwy gymuned sydd wedi bodoli gyda'i gilydd ers blynyddoedd. Dywed ei bod yn erbyn y cynnig i rannu'r gymuned.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** fel preswylydd ers 16 mlynedd a chyn aelod o Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cymuned Saint-y-brid (1995 – 1999) gydag arsylwadau ynghylch y gwrthwynebiad i'r rhaniad arfaethedig, fel a ganlyn:

- Mae cymuned bresennol Saint-y-brid yn cynrychioli'r hen gyngor plwyf, sifil ac eglwysig, sydd wedi bodoli ers canrifoedd lawer. Felly, byddai rhannu'r gymuned yn torri'r gorffennol hanesyddol a fyddai'n achosi edifeirwch mawr i'w phreswylwyr ym mha bynnag ward neu adran etholiadol y maent yn byw ynddi. Ni fyddai'n gyfyngedig i'r rheiny sy'n mynychu'r eglwys blwyf yn unig.
- Tan yn gymharol ddiweddar, hyd y 1960au, roedd gan Aberogwr batrwm anheddu tenau. Ni fu ganddo gyfleusterau cymunedol erioed a oedd yn haeddu'r enw, nid ysgol hyd yn oed. Ni chafodd y cynnig i greu neuadd bentref yn y 1970au wynt dan ei adain, ac er iddo geisio adfywio diddordeb yn y syniad pan oedd yn gynghorydd, roedd yn amlwg nad oedd unrhyw gefnogaeth gyffredinol gan y preswylwyr, yn enwedig newydd ddyfodiaid.
- Yn ddiweddar, mae lleiafrif bach ond uchel eu cloch yn Aberogwr wedi ceisio creu gwrthwynebiad ffug rhwng wardiau etholiadol y gymuned. Cawsant rywfaint o lwyddiant etholiadol yn etholiadau'r cyngor cymuned yn 2008.
- Mae'r diffyg cyfleusterau yn Aberogwr yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod llawer o bobl yn byw yn y pentref yn rhan-amser yn unig fel perchnogion ail gartrefi. Ni fyddai cyngor cymuned ar wahân ar gyfer y pentref yn gallu darparu'r cyfleusterau hyn ynddo'i hun. Ni fyddai'n darparu 'llais cryfach', ond i'r gwrthwyneb, byddai'n darparu llais gwannach. Roedd yn deall bod Cynulliad Cymru o blaid cryfhau democratiaeth leol trwy greu cymunedau mwy a mwy effeithiol. Gwelwyd yr angen am hyn gan gyngor cymuned Saint-y-brid yn y gorffennol, pan chwaraeodd ran weithredol yng Ngrŵp Cyswllt Gorllewin y Fro gyda chynghorau cymuned cyfagos. Er mis Mai 2008, mae'r cydweithrediad hwnnw wedi dod i ben.
- Cred ei bod yn anghywir dweud bod preswylwyr Saint-y-brid ac Aberogwr o'r farn nad oes llawer yn gyffredin rhyngddynt. Ers iddo ddod i'r ardal ym 1993, dywed ei

fod wedi mynd yn gyfaill i bobl ym mhob rhan o'r gymuned, yn ogystal ag yng nghymunedau cyfagos y Wig ac Ewenni.

- Cred fod y cynnig i rannu'r gymuned yn gynnig byrbwyll a'i fod yn gwneud apêl ddeniadol i ddiddordeb trychiadol cul ar Aberogwr. Ni fyddai cyngor cymuned ar wahân yn Aberogwr yn gallu gwneud llawer na all y cyngor cymuned presennol ei wneud, os o gwbl, ac na fyddai cyngor ehangach, gan gynnwys y Wig ac Ewenni efallai, yn gallu ei wneud yn well.
- Nid yw'r problemau sy'n effeithio ar Aberogwr, fel sbwriel, traffig ac ati yn unigryw iddi, ond yn gyffredin ym mhob cymuned wledig yng ngorllewin y Fro a thu hwnt. Y ffordd i ddatrys hyn yw trwy gydweithrediad rhwng y cymunedau, ac nid gan bob pentref bach ar ei ben ei hun. Roedd yn credu y byddai'r ymagwedd hon yn cael ei chefnogi yn y cymunedau eraill hynny.
- Cred nad yw'r cynnig dan sylw wedi'i drafod yn eang yn y gymuned gyfan, a bod angen ei ystyried yn llawnach cyn i'r Comisiwn wneud unrhyw argymhellion terfynol.

Ysgrifennodd **preswylydd o Southerndown** i roi manylion taflen yr oedd wedi'i chael trwy ei ddrws ac i esbonio pam ei fod yn erbyn rhannu'r gymuned. Roedd yr arsylwadau a wnaed ganddo yn ei lythyr fel a ganlyn:

- Roedd y daflen yn awgrymu ei bod yn ddogfen swyddogol a anfonwyd allan ar y cyd gan gyngor cymuned Saint-y-brid a'r Comisiwn, ac roedd yn sicr nad oedd hyn yn wir.
- Nid oedd rhai preswylwyr wedi derbyn y daflen ac roedd o'r farn bod gofyn am sylwadau o fewn cyfnod mor fyr yn annemocrataidd. Roedd angen anfon llenyddiaeth debyg drwy'r post at bob aelwyd yr effeithir arno.
- Hwn oedd y tro cyntaf iddo ef a llawer o'r preswylwyr eraill glywed am y cynnig. Awgrymodd yr angen am ymwybyddiaeth gyhoeddus a chyfarfodydd wedi'u trefnu'n gywir i amlygu manteision ac anfanteision newidiadau tebyg.
- Nid oedd preswylwyr ward Saint-y-brid wedi derbyn unrhyw wybodaeth o gwbl. Ysgrifennodd fod hyn yn annemocrataidd hefyd ac y dylai ardal cyngor cymuned gyfan wneud penderfyniad mor bwysig â hyn.
- Roedd y daflen yn sôn am ymgynghoriad yn 2008; unwaith eto, nid oedd wedi clywed am yr ymgynghoriad hwn ac roedd yn cwestiynu pa mor swyddogol ydoedd, lle y cyhoeddwyd y canlyniadau, pwy wnaeth y dadansoddiad a pha gwestiynau a ofynnwyd.
- Mae'r syniad o rannu'r cyngor cymuned yn mynd yn erbyn dymuniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, y byddai'n well ganddi unedau mwy. Aiff ymlaen i sôn am gymunedau Merthyrmawr a Bryntirion yn ystyried ymuno â'i gilydd i wneud praesept mwy defnyddiol.
- Roedd o'r farn bod rhannu'r cyngor cymuned yn y modd hwn yn gam yn ôl. Roedd yn gynghorydd Cymuned am bron i ugain mlynedd rhwng 1974 a 1996 ac mae'n sicrhau bod y cyngor bob amser yn gweithredu er budd yr ardal gyfan. Mae digwyddiadau diweddar yn ymwneud â'r cyngor yn awgrymu iddo fod rhyw ddymuniad rhyfedd i hollti'r cymunedau. Dywed y byddai'n gryf yn erbyn yr hollt.
- Cododd y cwestiwn â phwy y dylid cysylltu Southerndown pe byddai'r rhaniad yn digwydd, a dywedodd fod gan y rhan fwyaf o bobl yn ardal Southerndown gysylltiadau llawer cryfach â Saint-y-brid nag Aberogwr.

Gofynnodd, ar sail ei sylwadau, i'r Comisiwn ystyried atal y broses er mwyn rhoi digon o amser i'r gymuned gyfan ystyried goblygiadau'r cynigion. Ychwanegodd ei fod wedi anfon copi o'i lythyr at ei AC, Jane Hutt.

Mewn gohebiaeth bellach ganddo, ychwanegodd, hyd eithaf ei wybodaeth, nad oedd yn cydnabod rhai o'r materion a amlinellwyd yn y cynigion drafft ac nad oedd y Cyngor Cymuned yn gweithredu'n gyfan gwbl nac yn fwriadol o blaid ward Saint-y-brid pan oedd yn Gynghorydd Cymuned ei hun. Mae unrhyw 'ddrwgdeimlad' a grybwyllwyd wedi digwydd er 2004. Roedd o'r farn bod cyngor unedig yn cynrychioli'r ddwy ardal, yn ogystal â Southerndown, yn debygol o fod yn gryfach o lawer yn ariannol ac yn wleidyddol, i gynrychioli'r etholaeth orau.

Aeth ymlaen, gan ddweud bod achos o blaid ymestyn y broses ymgynghori, er mwyn galluogi i breswylwyr Saint-y-brid ystyried eu sefyllfa. Gorffennodd trwy ddweud y dylid cynnal refferendwm priodol ledled ardal y Cyngor Cymuned, a phe byddai'r penderfyniad sy'n deillio o'r bleidlais hwnnw o blaid symud ymlaen gyda dau gyngor yna digon teg, ac o leiaf y byddai pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan.

Ysgrifennodd **preswylydd o Southerndown** i ddweud, ar ôl siarad â gwahanol breswylwyr yn Southerndown, yr ymddengys fod ychydig iawn o ddiddordeb yn y cyngor cymuned, gan mai anaml iawn y mae unrhyw benderfyniadau'n effeithio ar gymuned Southerndown, os o gwbl.

O ystyried hynny, roedd o'r farn y dylai Southerndown gael ei hystyried yn gymuned ar wahân i naill ai Saint-y-brid neu Aberogwr. Os na fyddai modd cydnabod Southerndown fel cymuned ar ei phen ei hun, yna roedd o'r farn y byddai bod yn rhan o gyngor cymuned Aberogwr yn well.

Ysgrifennodd **preswylydd o Southerndown** ynghylch sefyllfa Southerndown a rhaniad arfaethedig y Cyngor Cymuned. Fel preswylwyr yn Southerndown ers dros 50 mlynedd, roeddent am gefnogi unrhyw gynnig i gadw Southerndown gyda Chyngor Saint-y-brid, oherwydd y cysylltiadau cryf sydd rhyngddynt. Roedd y rhesymau a roddwyd fel a ganlyn:

- Ar sail hanesyddol – cysylltiad agos teulu ac ystadau Dwnrhefn â Southerndown a Saint-y-brid; mae tir Dwnrhefn yn ffinio ar y ddau bentref.
- Daearyddol – llwybrau troed sy'n dod â'r ddau bentref yn agos at ei gilydd (o'r pwll yn Saint-y-brid i'r traeth a llwybr Green Lane). Y ffordd dros Southerndown i Heol y Mynydd i Saint-y-brid. O gymharu â hyn, mae rhaniad naturiol ar ôl West Farm nes i chi gyrraedd Ogwr.
- Ffermio – mae tir Slade Farm o fewn ffiniau Saint-y-brid a Southerndown.
- Sefydliadau – mae Southerndown wedi rhoi ei henw i sawl sefydliad, sy'n defnyddio'r cyfleusterau yn Saint-y-brid. Mae Undeb Mamau Southerndown, sef un o'r hynaf yng Nghymru, wedi'i leoli yn Saint-y-brid. Mae Gorsaf Heol Southerndown hanesyddol, sydd wedi'i lleoli yng Nghastell ar Alun, yn dangos y cysylltiad agos rhwng y ddau bentref.
- Yr eglwys yn Saint-y-brid yw mam-eglwys eglwys lai 'Yr Holl Saint' yn Southerndown. Mae gan y ddwy ohonynt gysylltiadau cryf â Dwnrhefn. Mae'r tir y mae Eglwys yr Holl Saint wedi'i adeiladu arno yn dir Dwnrhefn, ond caiff ei hariannu a'i rhedeg gan Saint-y-brid.

Am y rhesymau a nodwyd, dywedasant y byddai'n well ganddynt aros gyda Chyngor Saint-y-brid.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** i wrthwynebu rhaniad arfaethedig y plwyf yn gryf, a fyddai'n achosi dim ond costau cynyddol i'r plwyfolion.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** i ddweud na i'r ymraniad, peidiwch â rhannu'r gymuned os gwelwch yn dda.

Ysgrifennodd **preswylydd o Southerndown** gan gyfeirio at y newidiadau arfaethedig. Roedd o'r farn ei bod yn hanfodol bod Southerndown yn cael ei chydnabod fel ward yn ei rhinwedd ei hun, p'un a yw'n rhan o Saint-y-brid neu Ogwr.

Gofynnodd **preswylydd o Aberogwr** i'r Comisiwn argymell i Lywodraeth Cynulliad Cymru na ddylid rhannu Plwyf Aberogwr a Saint-y-brid yn ddau gyngor ar wahân. Mae o'r farn bod y gymuned yn cael budd o'r gymuned ehangach, ac y byddai ymraniad yn golygu cynnydd yn y dreth gyngor i'r holl bentrefwyr yn Saint-y-brid ac Ogwr, fel ei gilydd.

Dywed fod gan y gymuned lais cryf eisoes mewn perthynas ag unrhyw faterion cynllunio a allai ddod i'r amlwg yn Saint-y-brid neu Aberogwr. Mae'r pentrefi wedi'u cysylltu'n agos o ran materion mynediad a defnyddio cyfleusterau ar y cyd. Byddai'n well ganddi weld y cyngor cyfunol yn cael safle uwch yng nghymunedau Bro Morgannwg ac yn cael budd o'r adnoddau y dylent eu mwynhau o ystyried eu maint, heb orfod talu mwy o'r dreth gyngor.

Dylai cyngor cyfunol gyda'r aelodau etholedig cywir fod â llais cryf a gallu cydweithio'n agos â Chyngor y Fro mewn perthynas gynhyrchiol agos, yn hytrach na'r gwrthdaro hanesyddol y cafwyd profiad ohono, yn enwedig gan aelodau'r cyngor o Aberogwr.

Gwnaeth **dau breswylydd o Southerndown** sylwadau ar y cynnig i wahanu Saint-y-brid, Southerndown ac Aberogwr yn ddwy ardal gyngor ar wahân. Nid oeddent yn gallu gweld pa rinwedd oedd i'r rhaniad. Os cytunir ar y cynnig, maent yn dweud na fyddai gan ran o'r ardaloedd newydd Ganolfan Gymunedol (yn unlle i bobl hŷn neu bobl ifanc gyfarfod), eglwys, ysgol, Swyddfa Bost, siop bentref ac y byddai ganddynt lai o lais i ofyn am gamau gweithredu yn y dyfodol. Maent yn dweud na allant weld unrhyw rinwedd i'r cynnig. Roeddent am gofrestru dwy bleidlais i'r cynnig gael ei gollwng ac i'r ffiniau presennol aros yn eu lle.

Dywedodd **dau breswylydd o Southerndown** y byddai'n well ganddynt pe byddai ardal y Cyngor Cymuned yn aros fel y mae, gan gynnwys Saint-y-brid, Southerndown ac Aberogwr. Gwnaethant ychwanegu, pe byddai'n rhaid ymrannu'r ardal, byddai'n well ganddynt aros gyda Saint-y-brid.

Ysgrifennodd **preswylydd o Saint-y-brid** mewn ymateb i'r adroddiad ar y Cynigion Drafft ac, ar ôl darllen y llythyrau a gynhwyswyd ynddo, roedd yn ysgrifennu i wrthwynebu'r cynnig, ac i ychwanegu ei sylwadau a'i arsylwadau at y drafodaeth.

Codwyd pwyntiau yn ymwneud ag anghytgord a thrafferthion yng nghyfarfodydd y cyngor cymuned. Cyn etholiadau 2004, roedd yn bleser mynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned yn y pentref. Roedd hefyd o 2004 ymlaen y cafodd Cyngor Cymuned Saint-y-brid ei rewi i bob diben, wedi'i boeni gan anghydfodau ac amhariadau a arweiniodd at atal cyfarfodydd a llawer o gwynion i'r Swyddog Monitro. Dechreuodd yr ymddygiad aflonyddgar ac

ymosodol yn syth ar ôl yr etholiad yn 2004, gan arwain at honiadau a gwrth-honiadau, colli cyfoeth o wybodaeth leol a sgiliau gan gynghorwyr profiadol a cholli nifer o glercod.

Yn benodol, roedd yn anghytuno â'r gynrychiolaeth a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r anghytgord yn y cyngor cymuned ac, fel rhywun a oedd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y cyngor dros gyfnod maith, cred fod dealltwriaeth yr awdur o achos y problemau o fewn y cyngor a'r berthynas rhwng pobl yn y ddwy ward yn gamarweiniol. Mae'n cadarnhau nad oedd yr ymddygiad aflonyddgar a'r drwgdeimlad a welwyd yng nghyfarfodydd y cyngor er 2004 yn amlwg yn unrhyw rai o'r cyfarfodydd a fynychwyd ganddo cyn yr etholiad yn 2004. Mae'n cyfaddef bod anghytundebau o bryd i'w gilydd, fel sy'n naturiol mewn unrhyw gorff o bobl, ond roedd yn bendant nad oeddent o'r natur a welwyd ac a gyhoeddwyd yn y wasg yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Yr ymddygiad hwn yw'r rheswm pam y bu i gynghorwyr cyfarwydd a phrofiadol dynnu'n ôl yn 2008 a pham na ddaeth pobl newydd i sefyll yn yr etholiad. Gofynnodd nifer o bentrefwyr a chynghorwyr iddo sefyll, ac fe wrthododd am yr un rhesymau. Ar ben hynny, parhaodd y problemau ac ers hynny maent wedi colli 2 gynghorydd arall. Yn hytrach nag annog y cyngor cymuned i chwalu, cred y dylai'r cynghorwyr hyn ganolbwyntio eu hymdrechion ar wella unrhyw rwygiad tybiedig a thynnu'r pentrefi at ei gilydd.

Mae hefyd yn credu bod rhai pobl yn defnyddio'r dull cydunol a bwriadol hwn i greu cyngor cymuned ar wahân yn Aberogwr.

Rhoddir llawer o bwys ar y diffyg gweithredu gan "yr Awdurdodau" a'r diffyg cyfleusterau ymddangosiadol yn Aberogwr. Efallai pe byddai'r cynghorwyr a darfodd ar waith y cyngor o 2004 ymlaen wedi cydweithio â'r cynghorwyr eraill yn hytrach nag yn eu herbyn, y rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r cwbl yn y wasg leol, byddant wedi dangos undod a dyfalwch i'r "awdurdodau" hyn gan ennill rhywfaint o weithredu a chyfleusterau angenrheidiol.

O ran amwynderau, mae gan Aberogwr lawer yn yr ardal arfaethedig newydd y byddai llawer o gymunedau eraill ledled y DU yn falch iawn o frolio amdanynt: siop bentref a Swyddfa Bost, eglwys, bar tapas, y môr a thraeth ynghyd â Gorsaf Achubwyr Bywyd, tir comin i gerdded ynddo gyda llawer o seddi cyhoeddus newydd wedi'u hadeiladu yn ystod cyfnod y cyngor blaenorol (2004-2008), lle chwarae i blant, gwasanaeth bws gydag arosfannau bysiau yn cael eu cynnal a'u cadw gan y cyngor cymuned, clwb golff, castell hanesyddol, 2 dafarn, canolfan marchogaeth, siop hen bethau a chanolfan lloriau estyll a siediau ar gyfer gerddi.

Ychwanegwch at hyn yr amwynderau niferus eraill sydd ar gael o fewn 3 milltir o Aberogwr, gan gynnwys: ysgol gynradd, priordy, eglwys blwyf a mynwent, clwb criced gyda phafiliwn, cae pêl-droed gyda phafiliwn, neuadd bentref, neuadd sgowtiaid, amrywiaeth o siopau bach, Swyddfa Bost arall, 3 thafarn arall, 2 gaffi, canolfan arddio arall, crochendai hanesyddol, lletyau gwely a brecwast, gwesty yn Ewenni a pharciau manwerthu ar y A48. Dywed fod y pentref yn gyfoeth o amwynderau ac mae'r gwirionedd ymhell o'r honiad hwnnw.

Roedd yn cytuno bod gan y lle chwarae i blant offer gwael a bod problem gyda thraffig a pharcio yn Aberogwr, ond trwy dynnu ynghyd, mae gan gyngor cymuned fwy o rym i godi arian a mynd i'r afael â'r problemau hyn. O ran yr awgrym bod angen ei neuadd bentref ei hun ar Aberogwr, y cwestiwn yw, beth mae Pwyllgor Neuadd y Pentref a'i ymddiriedolwyr

wedi'i wneud yn ystod y 10 mlynedd diwethaf? Faint o arian sydd ganddynt hyd yn hyn, ble mae'r arian a beth maent yn ei wneud nawr?

O ran busnesau preifat yn cau, fel tafarnau, gwesty, siopau ac ati, mae hyn yr un fath ag unrhyw gymuned fach arall lle nad yw cefnogaeth leol yn ddigon i'w cadw'n ymarferol yn ariannol a lle nad yw masnach ddiflannol neu dymhorol yn ddigon i ddigolledu am hynny. Mae hyn oherwydd yr hinsawdd economaidd, ffyrdd o fyw newidiol ac efallai newidiadau i amgylchiadau personol rhai o'r perchnogion.

Nid yw hyn oll yn rheswm da i ymrannu'r cyngor cymuned. Mae ardal y cyngor presennol yn golygu mwy o incwm yn gyffredinol a'r gallu i ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau gwell, cyn belled â bo'r cynghorwyr yn cydweithio â'i gilydd mewn cytgord. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod agored gan Gyngor Cymuned Saint-y-brid yn ddiweddar ac ar ôl ystyried yr holl drafferth yn y cyngor cymuned er 2004, er nad yw'n credu mai honno fyddai'r weithred gywir, yr unig reswm y gallai ei roi o blaid yr ymraniad fyddai efallai y gallai Cyngor Cymuned Saint-y-brid droi'n ôl at synnwyr cyffredin a chanolbwyntio ar wasanaethu cymuned Saint-y-brid a Southerndown, yn hytrach nag ymladd yn fewnol gyda chynghorwyr yr ymddengys nad oedd ganddynt unrhyw fwriad o wasanaethu'r gymuned fwy yn briodol o'r cychwyn un.

Roedd **preswylydd o Aberogwr** yn croesawu'r cyfle i roi barn ystyriol am yr awgrym y dylai Aberogwr gael ei Gyngor Cymuned ei hun. Mae'n anghytuno'n llwyr â'r ymraniad. Roedd o'r farn bod y syniad wedi'i lunio yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf a'i fod yn ddi-sail, wedi'i hyrwyddo gan leiafrif bychan o bobl, nad oedd erioed yn broblem yn y pentref dros y blynyddoedd.

Mae 3 phentref Saint-y-brid, Southerndown ac Aberogwr wedi cydfodoli fel Cyngor Cymuned er 1974 ac roedd yn gyngor teg a chytûn hyd o leiaf 2004, pan fu i'r hyn y gellir eu disgrifio fel elfennau aflonyddgar lleiafrifol gyda'u hagendâu eu hunain ymdreiddio i'r Cyngor o'r tu mewn a'r tu allan. Mae hyn wedi parhau dros y 5 mlynedd diwethaf hyd y pwynt yr ydym wedi'i gyrraedd heddiw.

Mae ei ymgysylltiad personol ag Aberogwr yn cynnwys byw yn y pentref er 1970, sefyll yn yr etholiad ym 1974, cael ei ethol ym 1979 a bod yn gynghorydd ar y Cyngor Cymuned hyd 2008. Gyda chyfnod o 29 mlynedd o wasanaeth di-dor, daeth i'r casgliad mai ef oedd yr aelod uchaf o Gynghorwyr Aberogwr a ymadawodd. Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, gwasanaethodd fel cadeirydd am 5 mlynedd unigol. Dywed ei fod hefyd wedi gwasanaethu'n eang mewn mannau eraill mewn llywodraeth leol, gydag 8 mlynedd ar Gyngor Sir Morgannwg Ganol, 20 mlynedd ar Gyngor Bwrdeistref Ogwr, 25 mlynedd ar Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, 3 blynedd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a blwyddyn ar Gyngor Cymuned Merthyr Mawr, felly mae ganddo syniad da o'r modd y mae llywodraeth leol yn gweithio.

Ar ôl yr etholiad cymunedol yn 2004, roedd y cyfnod o 4 blynedd dilynol yn gyfnod o dryblith a chasineb cyson a achoswyd gan leiafrif o unigolion. Yn y cyfnod byr hwnnw, collodd y cyngor 4 Clerc Cymunedol nad oeddent yn gallu goddef yr annifyrrwch yn y Cyngor. Ymddiswyddodd un Cynghorydd newydd am yr un rheswm. Yn yr etholiadau yn 2008, penderfynodd cymaint â 7 o'r 11 o gynghorwyr i beidio â sefyll eto, a chollodd y cyngor gyfoeth o wybodaeth a phrofiad ag un ergyd; roedd y sefyllfa yn annioddefol. Ers yr etholiad, mae 2 Gynghorydd a Chlerc arall wedi ymddiswyddo. Mae hyn yn dystiolaeth o'r casineb sy'n amgylchynu'r Cyngor o hyd.

Yn ystod y cyfnod o 2004-08, cyfeiriwyd nifer di-rif o faterion honedig at y Swyddog Monitro yng Nghyngor y Fro a'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Gwrthodwyd mwyafrif y cwynion ac roedd y rheiny a gadarnhawyd o natur ddibwys. Mae Cyngor Saint-y-brid ar frig y 'gynghrair' o ran cysylltu â'r awdurdodau, ac mae'r broses hon wedi costio miloedd o bunnoedd i'r trethdalwyr heb fod angen. Mae'r Cyngor wedi'i ansefydlogi heb unrhyw reswm da.

Fel preswylydd ers 40 mlynedd, nid oedd yn gwybod unrhyw beth ar y 'cyfnod ymgynghori y llynedd', pan ddywedwyd bod 300 o breswylwyr o Aberogwr wedi ysgrifennu o blaid yr ymraniad. Os trefnwyd hyn yn lleol, roedd yn ddetholus iawn o ran pwy oedd yn cael rhoi eu barn, a dywed na ofynnwyd iddo ef. Roedd hefyd am ofyn pa breswylwyr o Southerndown a Saint-y-brid yr ymgynghorwyd â nhw, gan y byddai unrhyw newid yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Os nad ymgynghorwyd â nhw, pam? Cafodd wybod am yr ymgynghoriad ar ôl cael taflen drwy ei ddrws ac mae ganddo'r barnau canlynol am y pwyntiau a ddyfynnwyd fel yr 'angen' i ymrannu'r pentrefi:

- 'Mae preswylwyr wedi rhoi gwybod am broblemau, ond ychydig iawn a wnaed amdanynt' – mae'n sicrhau'r Comisiwn bod yr awdurdod perthnasol wedi ymgymryd â phob mater y rhoddwyd gwybod i'r Cyngor amdano yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Ni all y Cyngor Cymuned ddatrys y rhan fwyaf o'r problemau sy'n cael eu codi ar lefel gymunedol, gan eu bod y tu allan i'w gwmpas a'i gyfrifoldeb. Mae awgrymu bod unrhyw beth wedi'i chwifio ymaith yn afresymol.
- 'Sŵn a niwsans o feysydd parcio, baw cŵn a sbwriel ar y comin' – mae'r rhain yn faterion y mae'r Fwrdeistref Sirol yn gyfrifol amdanynt. Nid oes gan unrhyw Gyngor Cymuned y pwerau na'r modd i'w hatal.
- 'Yn ystod yr haf, mae ein strydoedd wedi'u tagu gan geir wedi'u parcio' – unwaith eto, mae hwn yn fater i'r awdurdod priffyrdd a'r heddlu, nid y Cyngor Cymuned. Mae Aberogwr yn bentref arfordirol prydferth. Ni fyddech yn disgwyl unrhyw beth ond ymwelwyr mewn tywydd braf ac mae unrhyw un sy'n byw mewn ardal debyg yn deall yn iawn ei bod yn denu traffig ychwanegol.
- 'Mae cerbydau sy'n goryrru yn fygythiad cyson' – unwaith eto, mae hwn yn fater i'r heddlu ac nid yw'n unigryw i'r pentref hwn.
- 'Mae carthffosiaeth yn aml yn llifo i'r comin' – mae'r mater hwn yn ymwneud ag un ardal benodol sydd wedi bod yn achosi problemau ers blynyddoedd ac ymddengys nad yw'r awdurdodau perthnasol yn gallu eu datrys. Yn bendant, ni all y Cyngor Cymuned ddatrys y broblem.
- 'Rhaid i breswylwyr deithio y tu allan i'r pentref i ddefnyddio cyfleusterau' – yn wir, mae'n rhaid iddynt wneud hynny ac mae wedi bod felly ers degawdau. Roedd dwy siop ond nid yw'r pentref prin yn gallu cynnal un ohonynt. Roedd 4 tafarn, ond nid oedd y pentref yn gallu eu cynnal neu'n fodlon eu cynnal, felly maent wedi mynd. Mae'r brif ysgol gynradd a'r eglwys y tu allan i'r pentref, ond mae hwn yn fater daearyddol ac nid yw'n anghyffredin. Nid oes neuadd gyfarfod – mae'r pentrefwyr yn symudol iawn ac yn teithio i gyfleusterau anghysbell.
- 'Mwy o ddatblygiadau preswyl' – ie o bosibl, ond mae'r niferoedd yn ansicr a chaiff unrhyw newid i'r boblogaeth ei ystyried ar ôl y digwyddiad, nid ei seilio ar ragamcanion.
- 'Gallai Cyngor sy'n cael ei redeg yn briodol sicrhau grantiau ac ati' – mae'r Cyngor wedi'i redeg yn briodol ers degawdau ac mae dweud fel arall yn gelwydd, ac mae'r grantiau sydd wedi bod ar gael dros y blynyddoedd wedi'u sicrhau.

- ‘Mae’r gymuned angen llais annibynnol cryf ac ati’ – mae’r gymuned yn dri phentref ac mae bob amser wedi lleisio ei barn yn y lleoedd cywir.

Gan droi at y dyfodol, mae’n farn hirsefydlog bod angen i’r Cynghorau Cymuned presennol gyfuno, nid ymrannu. Mae’n bosibl nad yw’r hyn a oedd yn strwythur priodol ym 1974 pan sefydlwyd y Cynghorau Cymuned presennol yn briodol nawr. Mae hyn o ystyried y cymysgedd o ddeddfwriaeth a biwrocratiaeth a osodwyd ar Gynghorau ar yr haen isaf yn raddol, ac y disgwylir iddynt eu gorfodi i’r lefel uchaf heb unrhyw gyllid ychwanegol.

Er mwyn denu’r clerc â’r cymwysterau gorau a chynnig gwerth da am arian, mae angen i Gynghorau gyfuno fel y gellir rhannu’r costau yn ehangach. Mae’r dyddiau wedi hen fynd pan fyddai preswylwyr lleol gydag ymdeimlad o ddyletswydd i’r gymuned wedi ymgymryd â thasg y Clerc heb dâl. Mae’r ddeddfwriaeth bresennol yn mynnu lefel uwch o arbenigedd ac mae’r unigolion hyn yn brin. Mae hyn yn arwain at y ffaith, yng nghanol yr holl brotestiadau ynghylch ffurfio cyngor arall, nad yw’r cyhoedd yn cael unrhyw wybodaeth am faint mae gwanhau’r sefyllfa bresennol yn mynd i’w gostio iddynt ac o le y daw’r Clerc cymwysedig ychwanegol.

Mae’n economeg syml, os ydych yn gorfodi cyngor ychwanegol ar ardal, eich bod yn dyblu cost y fiwrocratiaeth ar unwaith. Yn hytrach na rhannu cyfanswm y costau rhwng y tri phentref, gallwch achosi i bob un ohonynt roi mwy o arian i gyflawni naill ai lefel bresennol y gwasanaeth, neu wasanaeth llai hyd yn oed. Mae’n gofyn a yw unrhyw un a allai fod o blaid yr ymraniad wedi costio’r cynnig yn gywir neu edrych ar y canlyniadau ar gyfer y dyfodol. Bydd yn rhy hwyr ar ôl y digwyddiad. Yr unig beth sydd i’w weld yn cael ei gynnig yn gyffredinol yw rhyw baradwys well.

Fel pentrefwr ers 40 mlynedd, mae’n erfyn ar y Comisiwn i gamu’n ôl o’r sefyllfa ac edrych yn ofalus ar gefndir y cynnig. Yn ei farn ef, byddai unrhyw ymraniad yn gam yn ôl ar gyfer democratiaeth leol, a dylem fod yn edrych ar adeiladu ar yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd, gyda’r posibilrwydd o fwy o gyfuniadau lleol.

I gloi, dywedodd fod y Cyngor presennol, sy’n cynnwys 11 o aelodau heb fawr o brofiad rhyngddynt, wedi cynyddu’r Dreth Gymunedol 124% eleni, ar adeg hinsawdd economaidd waethaf yr oes hon, sy’n ddangosydd gwael ar gyfer dyfodol yr ardal.

Ysgrifennodd **preswylydd o Saint-y-brid** fel cyn gadeirydd Cyngor Cymuned Saint-y-brid i fynegi ei siom bod rhai aelodau o’r Cyngor Cymuned presennol yn dilyn cynllun i greu Cyngor ar wahân ar gyfer Aberogwr o hyd, ar ôl dros 100 mlynedd.

Mae’n teimlo bod y modd yr ymddengys fod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn annemocrataidd, gan honni bod 300 o bobl yn Aberogwr o blaid yr ymraniad, pan nad oes unrhyw gofnod amlwg o nifer yr unigolion sydd yn erbyn y cynnig. Mae’n deall bod pobl benodol mewn dau bentref wedi derbyn llythyrau ynghylch y cynnig, a dywed na chafodd ei aelwyd ef unrhyw beth. Roedd yn ymwybodol bod hysbysiadau wedi’u rhoi ar bolion lampau yn Saint-y-brid, gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion, ac nid yw o’r farn bod hynny’n ymgynghoriad priodol.

Mae yn erbyn y cynnig i ymrannu’r cymunedau yn Gynghorau ar wahân am y rhesymau canlynol:

- O ganllawiau Cynulliad Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'n amlwg eu bod am i gymunedau gydweithio'n agosach â'i gilydd er lles pawb. Mae cynigion presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau nifer y Cynghorau lechyd Cymunedol o 22 i 7, wedi'u cefnogi gan 23 'Cymdeithas Gymunedol' newydd yn cadarnhau'r meddylfryd hwnnw.
- Yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd, codwyd y 'canllawiau' a chafwyd trafodaeth ddilynol gyda 3 Chyngor Cymuned cyfagos. Codwyd y posibilrwydd o gyfuno'r 4 Cyngor (ac roedd ef o blaid hyn) gan un neu ddau o'r Cynghorwyr. Cytunwyd i ffurfio 'Grŵp Cyswllt Gorllewin y Fro' i ddarparu llais cryfach mewn perthynas â materion a oedd yn gyffredin rhwng y 4 Cyngor. Roedd cyfarfodydd dilynol yn cynnwys presenoldeb AS ac AC lleol, a oedd yn cefnogi egwyddor y grŵp cyswllt newydd.
- Mae gan Saint-y-brid ysgol a fynychir gan blant o'r 3 phentref yn y gymuned, ac o bentrefi cyfagos y tu allan i'r gymuned.
- Mae eglwys Saint-y-brid, y mae Cyngor Cymuned Saint-y-brid yn gyfrifol am ei mynwent, yn gwasanaethu 3 chymuned. Dan y rheolau presennol, pe byddai Aberogwr yn dod yn gymuned ar wahân, byddai'r costau claddu yn dyblu ar gyfer y gymuned honno. Hefyd, byddai'n rhaid cynyddu'r praesept i dalu am glerc ar wahân. Byddai gan Saint-y-brid lai o bobl i dalu am ei chlerc ac am gynnal a chadw'r fynwent hefyd.
- Mae'r grwpiau cymunedol presennol yn dod â phobl o'r 3 phentref at ei gilydd yn rheolaidd, fel Pwyllgor Prosiect Cyfeillion yr Arfordir Treftadaeth, clwb coffi bore Sadwrn yr eglwys a Sefydliad y Merched.
- Ar hyn o bryd, mae Cyngor Cymuned Saint-y-brid yn cynrychioli 2,300 o etholwyr, ac mae Cynghorau eraill ym Mro Morgannwg sy'n cynrychioli niferoedd tebyg neu fwy, fel Sain Tathan, Gwenfô a Sili.

Roedd yn deall y gwnaed sylwadau am yr anghytgord a'r drwgdeimlad rhwng y pentrefi a bod Aberogwr wedi'i gynrychioli'n wael. Roedd yn credu ei bod yn bwysig archwilio'r cynnig trwy ailedrych ar brofiadau'r Cyngor Cymuned o 2004-2008. Codwyd yr ymraniad am y tro cyntaf yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor newydd yn 2004, gan 3 o'r 5 Cynghorydd yn cynrychioli Aberogwr. Etholwyd y 3 Chynghorydd fel aelodau 'annibynnol' heb unrhyw sôn am eu bwriad i wahanu Aberogwr ar y maniffesto a ddosbarthwyd ganddynt.

Erbyn diwedd cyfnod 4 blynedd y Cyngor, roedd un Cynghorydd a 4 Clerc wedi ymddiswyddo. Ar ben hynny, penderfynodd 7 o'r Cynghorwyr i beidio â rhoi eu henwau ar gyfer eu hailethol. Roedd gan 5 o'r Cynghorwyr hynny dros 100 mlynedd o wasanaeth rhyngddynt. Mae'r Cyngor presennol o 11 o aelodau yn cynnwys 8 Cynghorydd newydd ac, ers mis Mai 2008, mae wedi colli 2 Gynghorydd arall a ymddiswyddodd hefyd.

Ers i'r Cyngor newydd ddechrau yn 2008, nid yw wedi cymryd rhan mewn unrhyw un o gyfarfodydd Grŵp Cyswllt Gorllewin y Fro, ac mae wedi terfynu ei aelodaeth gydag Un Llais Cymru, a oedd yn darparu cyngor a chyswllt â'r holl Gynghorau eraill yn yr haen gyntaf ym Mro Morgannwg a rhannau eraill o Gymru, a sefydlwyd rhyw 15 mlynedd yn ôl.

Fel Is-gadeirydd y pwyllgor ardal, fe'i cynghorwyd gan Un Llais Cymru bod y mathau o broblemau yr oedd Cyngor Cymuned Saint-y-brid wedi cael profiad ohonynt wedi arwain at 2 Gyngor Cymuned yn ne Cymru yn cael eu chwalu. Fel Cynghorydd am tua 20 mlynedd, roedd yn poeni ynghylch ymarferoldeb y cynllun a'r rhesymau drosto, a

gofynnodd i'r Comisiwn ystyried y pwyntiau a godwyd ganddo ac i refferendwm priodol gael ei gynnal er mwyn i bawb gael pleidleisio ar y mater.

Roedd **preswylydd o Aberogwr** am wneud cynrychiolaeth yn erbyn y newid i'r ffin a fyddai'n rhannu Aberogwr a Saint-y-brid. Roedd o'r farn bod Aberogwr a Saint-y-brid, fel ei gilydd, yn cael budd o gymuned ehangach, yn enwedig o ystyried bod yr ysgol, yr eglwys a'r fynwent wedi'u lleoli yn Saint-y-brid.

Ysgrifennodd **preswylydd o Aberogwr** i ddweud ei bod yn gwrthwynebu ymraniad y Cyngor Cymuned yn llwyr.

Ysgrifennodd **preswylydd Heol y Mynydd, Southerndown** i ddweud na fyddai'r cynnig y gallai fod yn well gan Southerndown gael ei chysylltu â'r cyngor cymuned newydd arfaethedig yn dderbyniol iddo ef fel trethdalwr. Roedd y rhesymau dros hyn fel a ganlyn:

- Mae pentrefan Heol y Mynydd wedi'i gysylltu â Southerndown erioed, ond mae ganddo gysylltiadau hanesyddol â Saint-y-brid ac mae'n dibynnu ar Saint-y-brid ar gyfer ei wasanaethau fel Swyddfa Bost, siopau, eglwys, neuadd yr eglwys, ysgol, caeau chwaraeon, lle chwarae i blant a neuadd goffa'r rhyfel.
- Fel preswylydd o Heol y Mynydd ers rhyw 40 mlynedd, roedd yn drist bod Aberogwr am ffurfio ei chymuned ei hun, ond fel cyn gynghorydd cymuned, nid oedd wedi'i synnu, gan fod cynghorwyr yn Saint-y-brid ac Aberogwr wedi'i chael yn anodd cydweithio â'i gilydd er budd y gymuned ers rhyw ugain mlynedd.

Ysgrifennodd **preswylydd o Saint-y-brid** i ddweud ei fod wedi byw yn Southerndown ers dros 40 mlynedd gyda'i wraig a'i ddau blentyn, a oedd yn mwynhau'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae wedi bod yn ymwybodol o'r rôl gyfyng ond hanfodol y mae cynghorau lleol yn ei chwarae mewn ceisio cynnal yr adeiledd cymdeithasol ac mae'r cyngor lleol wedi ymgymryd â'r dasg ddiddiolch honno am gyfnod maith, gyda llawer o bobl o gymeriad rhagorol / bywydau proffesiynol / gwaith gwirfoddol ac ati.

Aiff ymlaen i ddweud nad oedd unrhyw amheuaeth bod ymgyrch fwriadus o aflonyddwch wedi'i threfnu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf sydd, yn anffodus, wedi golygu bod y cyngor cymuned wedi colli nifer fawr o gynghorwyr ymroddedig a chymwysedig iawn. Mae'n credu bod hyn wrth wraidd yr ymgyrch bresennol i ymrannu'r cyngor, a fyddai'n drist iawn, gan nad oes unrhyw reswm pam na all y cyngor cyfunol weithio er budd pawb.

Mae wedi bod yn ddrwgdybus erioed o grwpiau 'ymgyrchu' sy'n trefnu deisebau ac mae'n sicr, cyn ystyried gwahanu Aberogwr oddi wrth Saint-y-brid / Southerndown, y byddai angen ceisio barn yr holl bleidleiswyr yn annibynnol, gan gyflwyno astudiaeth effaith ariannol / gweinyddol / buddiol lawn a chynigion i'r pleidleiswyr.

I gloi, dywed mai ei farn bersonol ef yw y dylid rhoi mwy o bwerau a chyfrifoldebau i gynghorau cymuned dros faterion beunyddiol fel torri glaswellt/glanhau strydoedd/graffiti ac ati, ac na fyddai ymrannu a lleihau cynghorau yn helpu yn hynny o beth.

Awgrymodd **preswylydd o Southerndown** y dylai Southerndown fod yn gysylltiedig â Saint-y-brid ac nid Aberogwr, gan fod gan breswylwyr Southerndown gysylltiadau agosach â Saint-y-brid am y rhesymau canlynol:

- Mae'r plant ysgol yn mynychu'r ysgol yn Saint-y-brid
- Mae plant bach yn mynychu'r ysgol feithrin yn Saint-y-brid
- Mae llawer o eglwyswyr yn mynychu'r eglwys yn Saint-y-brid
- Mae'r siop a'r Swyddfa Bost yn Saint-y-brid yn agosach at Southerndown ac mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn mynd yno yn hytrach nag i Aberogwr.

Cred nad oes llawer o rinwedd i'r awgrym bod mwy yn gyffredin rhwng Aberogwr a Saint-y-brid gan eu bod yn 'bentrefi arfordirol', a dylid nodi y byddai'r datblygiadau cynllunio arfaethedig ar gyfer Aberogwr yn cynyddu ei maint yn sylweddol, gan olygu bod Southerndown yn edrych yn fychan o'i chymharu ag Aberogwr.

I gloi, mae'n ychwanegu bod ymgyrch fwriadus rhai unigolion, gan dargedu preswylwyr yn Aberogwr a Southerndown, trwy ymweliadau o ddrws i ddrws a danfon dogfennau â llaw yn lle eu postio yn Saint-y-brid, wedi arwain at ymateb rhagfarnllyd i'r cynigion.

Gofynnodd **3 phreswylydd o Aberogwr a 4 preswylydd o Saint-y-brid** i'r Comisiwn argymell peidio â rhannu'r plwyf yn ddau gyngor cymuned ar wahân. Roeddent yn credu y byddai cadw'r sefyllfa bresennol o fudd i'r gymuned ehangach ac y byddai'r ymraniad yn cynyddu'r dreth gyngor i bawb ym mhentrefi Saint-y-brid ac Aberogwr. Hefyd, gwnaethant grybwyll cadw'r ysgol a'r eglwys bresennol.

Maent yn datgan bod gan y gymuned lais cryf eisoes mewn perthynas ag unrhyw faterion cynllunio a allai godi yn Saint-y-brid neu Aberogwr, a bod gan y pentrefi gysylltiad agos mewn perthynas â materion yn ymwneud â mynediad a defnyddio cyfleusterau ar y cyd. Byddai'n well ganddynt weld y cyngor cyfunol yn cael safle uwch yng nghymunedau Bro Morgannwg ac yn cael budd o'r adnoddau y dylent eu mwynhau o ystyried eu maint, heb orfod talu mwy o'r dreth gyngor.

Dylai cyngor cyfunol gyda'r aelodau etholedig cywir fod â llais cryf a gallu cydweithio'n agos â Chyngor y Fro mewn perthynas gynhyrchiol agos, yn hytrach na'r gwrthdaro hanesyddol y cafwyd profiad ohono, yn enwedig gan aelodau'r cyngor o Aberogwr.

Ysgrifennodd **4 preswylydd o Aberogwr** yr un llythyr gan amlinellu eu bod yn cytuno â'r farn a fynegwyd i rannu'r Cyngor Cymuned presennol, ac roeddent am ychwanegu nad oedd llawer yn gyffredin rhwng pentrefi Saint-y-brid ac Aberogwr. Mae'r cyntaf yn bentref gwledig, mewn gwirionedd, a'r ail yn bentref glan môr, ac roedd llawer mwy yn gyffredin rhwng pentrefi Southerndown ac Aberogwr.

Roeddent o blaid yr opsiwn o wahanu ward Aberogwr oddi wrth Saint-y-brid a ffurfio Cyngor Cymuned newydd yn Aberogwr. Pe byddai preswylwyr Southerndown am ymuno ag Aberogwr, roeddent yn sicr y byddai croeso iddynt wneud hynny. Pe na fyddant am ymuno ag Aberogwr, yna roeddent yn sicr y gallai Aberogwr sefyll ar ei ben ei hun fel Cyngor Cymuned.

Roedd **258 o breswylwyr o Aberogwr** o blaid sefydlu Cyngor Cymuned newydd wedi'i seilio ar ward Aberogwr o Gyngor Cymuned Saint-y-brid, ar ffurf ffurflen unigol. Roedd y ffurflen yn nodi sail eu cais fel a ganlyn:

Gofynnaf i chi argymell i Lywodraeth Cynulliad Cymru y dylid rhannu cyngor cymuned presennol Saint-y-brid i greu ardal cyngor cymuned newydd sy'n cyd-fynd â ffiniau presennol ward Aberogwr.

Credaf fod Southerndown yn rhannu llawer o'r problemau y mae Aberogwr yn eu hwynebu, ac y byddaf yn fodlon ei gynnwys yn yr ardal newydd os yw ei breswylwyr o blaid hynny.

Credaf y byddai trefniadau tebyg yn gwella'r gwaith o ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn yr ardal.

Byddai cyngor newydd wedi'i seilio ar ward Aberogwr yn ymarferol, gyda thua 800 o etholwyr, neu 920 pe byddai'n ymuno â Southerndown. O'r 25 o gymunedau ym Mro Morgannwg, byddai'r ardal newydd ar safle 11 neu 12 o ran ei maint, a gallai weithredu fel partner cyfartal gyda chymunedau cyfagos wrth weithio i sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau effeithiol yn yr ardal wledig yng ngorllewin y Fro.

Mae angen llais annibynnol cryf ar ein cymuned er mwyn sicrhau bod pryderon lleol yn cael eu clywed yn effeithiol ar bob lefel o'r llywodraeth.

Gydag Aberogwr a Southerndown wedi'u clustnodi gan Gyngor y Fro fel mannau addas ar gyfer datblygiadau preswyl ychwanegol, gallai'r ddau bentref fwy na dyblu eu maint yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Byddai ardal gymunedol newydd yn rhoi cyfle cryfach a mwy canolbwyntiedig i bobl leol roi eu barn yn ystod y broses gynllunio.

Mae gan Aberogwr, Southerndown a Saint-y-brid eu hunaniaethau cymunedol a'u problemau penodol eu hunain. Dan y newidiadau y gofynnir amdanynt, credaf y byddai'r cysylltiadau cymdeithasol â'n cymdogion yn parhau'n gryf ac y byddai democratiaeth leol yn gwella. Gallai'r gymuned newydd ganolbwyntio'n well ar faterion lleol a darparu llais ychwanegol pan fod buddiannau cyffredin rhwng y cymunedau cyfagos.

A fyddech cystal â chymryd y camau angenrheidiol i ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar gyfer ein cymunedau os gwelwch yn dda?